Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

# 2017-18

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Trydydd Llawr
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

# CYNNWYS

| | | | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad ar Berfformiad | | |
| | 1.1 | Trosolwg | |
| | | Rhagair | 4 |
| | | Gwybodaeth am Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru | 6 |
| | | Blaenoriaethau'r Comisiynydd | 9 |
| | | Prif ystyriaethau a risgiau | 10 |
| | | Gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2017-18 | 11 |
| | 1.2 | Dadansoddiad o Berfformiad | 25 |
| 2 | Adroddiad ar Atebolrwydd | | |
| | 2.1 | Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | |
| | | Adroddiad y Cyfarwyddwr | 36 |
| | | Datganiad Cyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu | 45 |
| | | Datganiad Llywodraethu | 46 |
| | 2.2 | Adroddiad ar Staff a Thaliadau | 58 |
| | 2.3 | Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru | 74 |
| 3 | Datganiadau Ariannol | | 79 |

# 1 ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

## 1.1 TROSOLWG

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a’r prif lwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan roi sylw i’r ystyriaethau allweddol a’r risgiau rwyf wedi'u hwynebu.

### Rhagair



Ers ymgymryd â swydd y Comisiynydd yn 2012, rwyf wedi cwrdd ac wedi siarad â miloedd o bobl hŷn sydd, yn garedig iawn, wedi rhannu cymaint â mi – am eu bywydau, eu profiadau, eu gobeithion a’u dymuniadau ar gyfer y dyfodol.

Eleni, fel sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd blaenorol, mae’r lleisiau a’r profiadau hyn wedi parhau i arwain a siapio fy ngwaith fel Comisiynydd, ac maent wedi fy atgoffa yn gyson pam ei bod mor bwysig cael popeth yn iawn i bobl hŷn.

Pan rydym yn gwneud pethau’n iawn i bobl hŷn – pan fydd cymorth a chefnogaeth wedi’u teilwra ar gyfer eu hanghenion a hynny’n canolbwyntio ar ganlyniadau ac, yn bwysicach na dim, yn gwrando ar eu lleisiau ac yn gweithredu wedyn – gallant aros yn iach ac yn annibynnol a chael yr ansawdd bywyd gorau posib. Dyna mae pob un ohonom yn dymuno ei gael wrth i ni fynd yn hŷn.

Mae llawer o waith da ac arferion da i’w gweld ledled Cymru i wella bywydau pobl hŷn, ac rwyf fi’n tynnu sylw at hynny ac yn hyrwyddo hynny pryd bynnag y bo modd. Mae mor bwysig bod yr arferion da hyn yn dod yn arferion safonol yng Nghymru.

Ond mae llawer mwy i'w wneud i gydnabod pobl hŷn fel ased hollbwysig i Gymru, i gynnal eu hawliau, i’w diogelu rhag niwed, i sicrhau’r newidiadau maen nhw am eu gweld ac angen eu gweld, ac i sicrhau bod y dyheadau sy’n sail i lawer o’n polisïau a’n deddfwriaethau yng Nghymru yn dod yn realiti ym mywydau bob dydd pobl hŷn.

Mae llawer o’r materion a wynebir gan bobl hŷn ac yr wyf fi wedi tynnu sylw atynt a sôn amdanynt fel Comisiynydd wedi datblygu dros gyfnodau

sylweddol ac, yn anffodus, does dim ateb sydyn i'w datrys. Dyma pam mae gwaith dilynol a mynd ati'n barhaus i fonitro a chraffu ar bolisïau ac arferion mor bwysig. Mae'n allweddol, mewn sefyllfa lle mae blaenoriaethau a heriau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, nad yw addewidion cyrff cyhoeddus i weithredu a sicrhau newid yn mynd yn angof, ac nad yw adroddiadau'n hel llwch ar silffoedd.

Dyna fu canolbwynt llawer o'm gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys gwaith dilynol helaeth yn ymwneud â'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal a gynhaliwyd 2014 i asesu a yw uchelgais Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei wireddu o ran diogelu pobl hŷn ac eiriolaeth, adeiladu ar ganfyddiadau fy adroddiad 'Dementia: Mwy na dim ond Colli'r Cof', ac edrych yn fanylach ar wasanaethau seibiant yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn, rwyf wedi gwneud rhagor o waith dwys i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn, gan godi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol – drwy seminarau a chanllawiau sydd wedi'u cyhoeddi – am raddfa a natur y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu, sut mae adnabod y gamdriniaeth honno a sut mae modd mynd i'r afael â hynny.

Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a gafodd ei sefydlu gennyf fi ac sy'n cael ei gweithredu gan fy swyddfa, wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae dros 70 o bartneriaid cenedlaethol a dros 1,600 o aelodau'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda yn cyflawni amrywiol waith ar lefel strategol a chymunedol ar gyfer pum thema allweddol y rhaglen Heneiddio'n Dda – cymunedau o blaid pobl hŷn, cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia, lleihau codymau, unigrwydd ac arwahanrwydd, a chyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth. Cyhoeddais hefyd gyfres o Straeon Heneiddio'n Dda, i ddathlu'r gwaith eithriadol sy'n cael ei wneud gan Aelodau'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda, yn ogystal ag annog eraill i weithredu yn eu cymunedau eu hunain ac i sefydlu eu mentrau eu hunain i helpu pobl hŷn ledled Cymru i heneiddio'n dda.

Mae hi wedi bod yn fraint enfawr cael bod yn Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru dros y chwe blynedd diwethaf, cyfnod pan welwyd llawer o newidiadau cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn. Hoffwn ddiolch i'm tîm, y rhanddeiliaid sydd wedi gweithio â mi ac, yn bwysicach na dim, pobl hŷn ledled Cymru sydd wedi fy nghefnogi i a'm gwaith i wneud Cymru yn lle da i heneiddio, nid dim ond i ambell un, ond i bawb.

## Gwybodaeth am Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

### Hanes a chefndir statudol

Sefydlwyd swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru o dan Adran 1 o'r Ddeddf. Fe ddechreuais yn fy swydd fel Comisiynydd ar 6 Mehefin 2012.

Dyma swyddogaethau'r Comisiynydd:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Rwyf yn cael fy nghyllido gan Weinidogion Cymru er fy mod yn gweithredu'n annibynnol, ac rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) o ran defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i mi. Yn 2017-18 cefais £1.553 miliwn o gyllid, a oedd yn cynnwys dyraniad anghylchol o £10k ar gyfer y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru sy'n cael ei gweithredu gan fy swyddfa i (2016-17: £1.583 miliwn).

### Cenhadaeth fy sefydliad

Yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd o bwys iddyn nhw sy'n llywio fy ngwaith i, ac mae eu llais wrth galon popeth rwyf yn ei wneud.

Fel Comisiynydd, rwy'n hyrwyddwr ac yn llais annibynnol ar gyfer pobl hŷn, gan sefyll a siarad ar eu rhan. Fy swyddogaeth i yw sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n ynysig nac yn teimlo bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Rwyf am i Gymru fod yn lle da i heneiddio, nid dim ond i ambell un, ond i bawb.

Mae rôl a phwerau cyfreithiol y Comisiynydd, sy'n fy nghefnogi yn y gwaith o sicrhau newid ar ran pobl hŷn, wedi'u diffinio gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau sy'n cyd-fynd â'r ddeddf honno.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu pa gamau y gallaf fi, fel Comisiynydd, eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, a'r cymorth y gallaf ei roi'n uniongyrchol i bobl hŷn mewn amgylchiadau penodol.

## Adolygiad o Flwyddyn Ariannol 2017-18

Roedd y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos mai £1.646 miliwn yw'r gwariant net ar gyfer 2017-18 (2016-17: £1.387 miliwn).

Roedd £0.207 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (2016-17: £0.300 miliwn).

Mae gan y cronfeydd wrth gefn swyddogaeth bwysig i'w chyflawni o fewn fy rheolaeth ariannol yn gyffredinol. Maent yn golygu fy mod yn gallu rheoli risg yn effeithiol ac yn sicrhau parhad busnes. Hefyd, maent yn fy ngalluogi i barhau i gyflawni fy nyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, neu nad oedd modd eu rhagweld, boed y rheini'n broblemau ariannol neu'n broblemau cysylltiedig â gwasanaeth.

Rwyf wedi nodi tri rheswm penodol pam mae angen cadw cronfeydd wrth gefn:

- Er mwyn cynnal sefydlogrwydd busnes a sefydlogrwydd ariannol cyffredinol y sefydliad (y Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol) ac, yn benodol, oherwydd bod angen gallu ymateb i gostau annisgwyl ac – yn bwysicach byth – gweithredu ar unrhyw faterion pwysig neu faterion brys na chynlluniwyd ar eu cyfer sy'n cael eu dwyn i fy sylw. Mae'n bur debyg y bydd costau ychwanegol o'r fath yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol, ond maent hefyd yn anodd iawn eu mesur.

- Er mwyn ymdrin â risgiau penodol sydd wedi'u nodi a'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac er mwyn darparu sicrwydd ariannol yn erbyn y risgiau hynny. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn fy nghynllun ariannol tymor-canolig gan eu bod yn sicr, neu'n debygol iawn, o godi.


- At ddibenion cynllunio ariannol strategol, gan fy ngalluogi i grynhoi cyllid ar gyfer gwariant mwy sylweddol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y tymor hwy. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn adlewyrchu'r angen i ddarnau o waith rychwantu cyfnodau diwedd blwyddyn ariannol.

Amlinellwyd hyn yn fy Amcangyfrif i'r Gweinidogion a gyflwynwyd ym mis Hydref 2017. Mae’r amcangyfrif hwn ar gael ar fy ngwefan.

Dolen i’r wefan: **Amcangyfrif y Comisiynydd**

## Blaenoriaethau'r Comisiynydd

Wedi ymgysylltu’n helaeth â phobl hŷn, gwelais fod amryw o ffactorau'n cyfrannu at roi ansawdd bywyd da i unigolyn, fel y nodwyd yn fy Model Ansawdd Bywyd isod.




Defnyddiwyd y Model Ansawdd Bywyd wrth ddatblygu fy Fframwaith Gweithredu ar gyfer 2013-17, sy’n amlinellu fy mlaenoriaethau a'r newid rwy'n disgwyl ei weld ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru, a fy rôl i er mwyn sicrhau’r newid hwn.

Mae’r Fframwaith yn nodi pum blaenoriaeth sy’n sail i fy rhaglen waith weithredol bob blwyddyn:

- Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus.
- Gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael.
- Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a’r seilwaith cymunedol
- Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed, a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a’u hamddiffyn.
- Mynd i’r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu.

## Prif Ystyriaethau a Risgiau

Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu y byddaf yn ystyried y risg y bydd pethau'n mynd o chwith, ond hefyd yr effaith o beidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio ag elwa ar gryfderau corfforaethol. Mae'r sefydliad yn wynebu risgiau rydym yn gwybod amdanynt a fyddai, pe byddent yn cael eu hanwybyddu, yn effeithio'n ddifrifol ar fy ngallu i gyflawni fy mlaenoriaethau strategol.

Isod, mae fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a minnau wedi dynodi'r risgiau canlynol, a'r hyn sy'n eu sbarduno:




Mae fy null o ddelio â risg yn seiliedig ar bedair egwyddor:

- Mae risg yn anochel.
- Canfod beth yw maint y risg mewn amser real ar sawl lefel, gan gynnwys ystyried effaith gronnol y risg.
- Cymryd camau effeithiol i liniaru'r risg a monitro effeithiolrwydd hyn i atal y risg rhag datblygu i fod yn broblem.
- Datgelu'n llawn ac yn agored y trafodaethau â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol sy'n bresennol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

# Gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2017-18

## Ymestyn Allan a Gwrando ar Bobl Hŷn Iedled Cymru

Mae ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn ledled Cymru wedi bod yn rhan allweddol o'm gwaith yn ystod 2017-18, ac wedi rhoi cyfle i mi rannu gwybodaeth am fy rôl, fy ngwaith a'r ffyrdd y gallaf fi gynnig cymorth a chefnogaeth. Mae ymwneud fel hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd pwysig i mi glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am yr hyn sy'n bwysig iddynt, y gwasanaethau maent am eu gweld a'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae hyn yn helpu i arwain a siapio fy ngwaith a'm blaenoriaethau.

### Sioe Deithiol Ymgysylltu




Llwyddodd fy nhîm a minnau i gwrdd â 169 o grwpiau ledled Cymru yn ystod 2017-18, gan deithio dros 19,000 o filltiroedd i ymweld ag amrywiol leoliadau ac ymwneud â mwy na 3,300 o bobl hŷn.

I sicrhau bod lleisiau pobl hŷn o bob math yn llywio fy ngwaith ac yn cael eu hadlewyrchu yn fy ngwaith, mae fy nhîm a finnau wedi parhau i gwrdd ag unigolion o wahanol gefndiroedd lle nad yw eu lleisia u'n cael eu clywed yn aml.




I gefnogi'r gwaith ymgysylltu hanfodol hwn, rwyf wedi gweithio ag amrywiol sefydliadau sy'n gweithio ar ran pobl sydd â nodweddion a warchodir.

Mae sawl ymweliad ar y cyd ag Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, Arweinwyr Cynghorau a Chynghorwyr wedi'u trefnu, i roi cyfleoedd i bobl hŷn ddweud eu dweud a rhannu eu barn a'u profiadau yn uniongyrchol â'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

### Ymgysylltu Ehangach

Yn ogystal ag ymgysylltu â miloedd o bobl hŷn ledled Cymru drwy'r Sioe Deithiol Ymgysylltu, rwyf wedi parhau i weithio gyda sefydliadau ffurfiol sy'n cynrychioli pobl hŷn a'u buddiannau. Rwyf wedi parhau i weithio hefyd gyda chyrff cyhoeddus a mudiadau'r trydydd sector yng Nghymru,

er mwyn dysgu mwy am y materion a'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn a'u deall yn well, a thrafod sut gellid gwella gwasanaethau drwy rannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arferion da.

**Cefnogaeth gwaith achos i unigolion**




Cynigiodd fy Nhîm Gwaith Achos gefnogaeth a chymorth i 366 o bobl hŷn a'u teuluoedd ledled Cymru yn ystod 2017-18. Roedd llawer o'r achosion hyn yn gymhleth a dros gyfnod maith, yn enwedig pan oedden nhw'n ymwneud â materion diogelu ac amddiffyn.

Mae llawer o themâu cyffredin yn sail i nifer o'r materion y mae pobl hŷn yn cysylltu â'm swyddfa yn eu cylch, gan gynnwys cymhlethdod polisïau a phrosesau, cyfathrebu gwael, diffyg dealltwriaeth o effaith bosib penderfyniadau, a dim llawer o ddealltwriaeth o hawliau pobl hŷn na'r broses o'u rhoi ar waith.

Mae'r themâu uchod yn dangos bod cryn anghydbwysedd grym yn aml rhwng pobl hŷn a chyrff cyhoeddus, yn enwedig pan fydd problemau neu gwynion yn cael eu codi. Ar ben hynny, mae fy ngwaith achos a'r themâu sylfaenol yn dangos nad yw cyrff cyhoeddus yn dda yn aml iawn am ddysgu o'u camgymeriadau nac yn defnyddio lleisiau a phrofiadau pobl i ategu a sbarduno'r broses o wella gwasanaethau drwy'r amser.

## Sbarduno newid i bobl hŷn

### Adolygiad o Gartrefi Gofal – gwaith dilynol

Canfu fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn 2014 fod ansawdd bywyd gormod o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn annerbyniol, a bod angen newid sylweddol i sicrhau bod ansawdd bywyd pobl hŷn wrth wraidd ein system cartrefi gofal.

Yn dilyn cyhoeddi fy nghanfyddiadau, cefais sicrwydd y byddai cyrff cyhoeddus yn cymryd y camau priodol i sicrhau'r newid a'r gwelliannau angenrheidiol.

Er fy mod wedi cael sicrwydd y byddai camau'n cael eu cymryd mewn ymateb i'm Hadolygiad, yn dilyn gwaith monitro a chraffu parhaus, roedd gennyf bryderon nad oedd gweithredu amlwg i'w weld yn digwydd mewn

sawl maes allweddol. Felly, es i ati i ymgymryd â rhaglen o waith dilynol manwl.

Drwy’r gwaith dilynol, roeddwn yn edrych am dystiolaeth o arweinyddiaeth, uchelgais a chynnydd, yn ogystal â dealltwriaeth glir o pam mae ansawdd bywyd a ffocws ar ganlyniadau mor bwysig i bobl hŷn.

Canfu fy adroddiad, ‘Lle i’w Alw’n Gartref: Effaith a Dadansoddiad’, fod Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cadarnhaol, gydag amrywiaeth eang o weithgarwch newydd ar waith, ond bod angen i nifer ohonynt wneud llawer mwy i roi’r sicrwydd priodol y bydd y newid angenrheidiol yn cael ei sicrhau.

Ar ben hynny, dydy'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru ddim wedi dangos digon o gynnydd a gweithredu mewn nifer o feysydd pwysig – fel gofal ymataliaeth, atal codymau a chynllunio’r gweithlu. Mae gofyn cael arweinyddiaeth a dull gweithredu cenedlaethol yn y meysydd hyn er mwyn sbarduno newid ystyrlon mewn diwylliant, sicrhau gwell atebolrwydd a hyrwyddo defnyddio arferion da sy’n seiliedig ar dystiolaeth yn fwy effeithiol.

Ysgrifennais at Lywodraeth Cymru, y Byrddau Iechyd a’r Awdurdodau Lleol, gan nodi fy mod yn disgwyl i’m hadborth gael ei drafod ar lefel Bwrdd/Cabinet ac y byddai ymateb yn cael ei roi yn nodi pa gamau pellach ac ymrwymiadau y cytunwyd arnynt.

Nodais yn glir hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru, y Byrddau Iechyd a’r Awdurdodau Lleol ganolbwyntio o'r newydd ar gymryd camau ystyrlon i gyflawni eu hymrwymiadau. Os na fyddant yn gwneud hynny, ni fydd ein system cartrefi gofal yn gallu bodloni anghenion gofal a chymorth pobl hŷn, sy’n newid o hyd. Yn bwysicach byth, bydd yn golygu y bydd ansawdd bywyd gormod o bobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal yn dal yn annerbyniol.

**Ailystyried Seibiant ar gyfer Pobl sy’n byw gyda Dementia**
Un o’r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad, ‘Dementia: mwy na dim ond colli’r cof’ – a gyhoeddwyd yn 2016 – oedd pwysigrwydd gwasanaeth seibiant hyblyg o ansawdd uchel sy'n cynnig profiad cadarnhaol i’r gofalwr ac i’r person sy’n derbyn gofal, ac yn gwneud mwy na dim ond cynnig seibiant oddi wrth ei gilydd.

O ystyried pa mor bwysig yw seibiant, a'i gysylltiadau â materion pwysig eraill fel diogelu ac iechyd a lles, fe sefydlais raglen waith i edrych yn fanylach ar faterion seibiant ac i ddylanwadu ar y ffordd mae gwasanaethau seibiant yn cael eu darparu a'u hystyried.

Yn ogystal ag adolygu'r gwaith ymchwil presennol a'r llenyddiaeth ynghylch seibiant, a galw am enghreifftiau o arferion da, cynhaliwyd cyfres o sesiynau trafod ar hyd a lled Cymru i glywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Roedd 123 o unigolion wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyn, gan rannu eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau seibiant – gan gynnwys unrhyw heriau a/neu rwystrau roedden nhw'n eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar y gwasanaethau hyn, a'r ffyrdd y dylid gwella gwasanaethau seibiant.

Cafodd y safbwyntiau a rannwyd yn y sesiynau hyn, yn ogystal â'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r adolygiad llenyddiaeth a'r gwaith a gyflwynwyd ar arferion da, eu defnyddio fel sail i'r adroddiad Ailystyried Seibiant a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018. Roedd yr adroddiad yn dweud yn glir bod angen cymryd camau i wella gwasanaethau seibiant, ac i sicrhau'r canlyniadau y mae'r bobl sy'n wynebu effeithiau dementia wedi dweud eu bod am eu gweld, ac angen eu gweld.

**Defnyddio Eiriolaeth Annibynnol**
Gan adeiladu ar ystod eang o waith sydd wedi'i wneud ym maes eiriolaeth dros y blynyddoedd diwethaf, fe wnes i ymgymryd â rhaglen waith a oedd yn edrych ar fynediad pobl hŷn at eiriolaeth annibynnol, ac a ydyn nhw'n cael eu hawliau cyfreithiol o ran eiriolaeth a gafodd eu cyflwyno gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaeth fy nhîm a minnau gydweithio'n uniongyrchol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid (60 o sefydliadau i gyd) – gan gynnwys dros 30 o sefydliadau eiriolaeth annibynnol, arweinwyr polisi, mudiadau yn y trydydd sector a chyrff eraill – yn ogystal â'r bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eiriolaeth. Ochr yn ochr â'r cydweithio helaeth hwn, cynhaliwyd hefyd ddadansoddiad manwl o'r data cymharol gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch eiriolaeth, er mwyn ystyried beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am brofiadau pobl hŷn o ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yng Nghymru.

Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith hwn ei defnyddio fel sail i adroddiad – 'Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn: Mynediad Pobl Hŷn at Eiriolaeth Annibynnol' – a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai 2018. Mae'n

cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, gan nodi'r ffyrdd y gellid codi mwy o ymwybyddiaeth o eiriolaeth annibynnol, a sut y mae angen gwella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

**Craffu ar Asesiadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o Lesiant Lleol**

Yn ystod haf 2017, bûm yn craffu ar yr Asesiadau o Lesiant Lleol a gyhoeddwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – dyletswydd a gafodd ei chreu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Roedd hyn yn dilyn gwaith helaeth gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2016-2017 a oedd yn cynnwys cael cyfarfod â phob Bwrdd i'w cynghori ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o fodloni anghenion pobl hŷn, a chyhoeddi canllawiau ffurfiol ar baratoi cynlluniau llesiant lleol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017.

Pwrpas y gwaith craffu oedd gweld i ba raddau roedd materion pobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu yn nogfennau'r asesiadau, a fyddai'r asesiadau'n bwrw ymlaen â'r agenda atal a'r agwedd 'heneiddio'n dda', a sut yr oedd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio fy nghanllawiau wrth ddatblygu eu cynlluniau a'u hasesiadau llesiant.

Cafodd fy nghanfyddiadau eu cyhoeddi ym mis Awst 2017, ynghyd ag argymhellion i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch sut mae sicrhau bod anghenion a materion pobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau llesiant lleol. Yn ogystal â'r adborth hwn, cynhaliais hefyd gyfres o weithdai i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod Hydref 2017 er mwyn atgyfnerthu'r negeseuon hyn a sicrhau bod y Byrddau'n ystyried canlyniadau cynaliadwy, ataliol a hirdymor i bobl hŷn a grwpiau eraill.

## Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Mae'r gwaith o gyflwyno Cam Dau Heneiddio'n Dda yng Nghymru – y rhaglen bartneriaeth genedlaethol i wella iechyd a llesiant pobl dros 50 oed yng Nghymru – wedi parhau yn ystod 2017-18, gyda gweithredu mewn amrywiol ffyrdd ar bum maes blaenoriaeth y rhaglen.

**70**
**o bartneriaid cenedlaethol Heneiddio'n Dda yng Nghymru**

Ar lefel strategol, mae dros 70 o bartneriaid Heneiddio'n Dda o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi parhau â'r gwaith ar lefel genedlaethol i gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cam Dau y rhaglen Heneiddio'n Dda.

Rydym wedi parhau â'r gwaith ar lefel Awdurdod Lleol hefyd, o dan arweiniad Cydlynwyr Strategaeth Pobl Hŷn, i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynlluniau Heneiddio'n Dda a gafodd eu cyhoeddi gan Awdurdodau Lleol yn 2016. Cynhaliwyd tair sesiwn gweithdy ym mis Hydref 2017 i ategu'r gwaith hwn, a oedd yn cynnig cyfleoedd i weithio gyda swyddogion Awdurdodau Lleol ac aelodau cynghorau i ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni blaenoriaethau Heneiddio'n Dda.




Gwnaed llawer o waith ar lefel gymunedol hefyd yn ystod 2017-18, ac mae dros 1,600 o aelodau Rhwydwaith Cymunedol wrthi'n gweithio ar gynlluniau i wneud Cymru yn lle gwell i heneiddio, ac i helpu i sefydlu cymunedau sydd o blaid pobl hŷn ac yn cefnogi pobl â dementia mewn pentrefi, trefi a dinasoedd ym mhob cwr o Gymru.

I gefnogi'r gwaith hwn, cynhaliodd y rhaglen Heneiddio'n Dda bum digwyddiad mawr yn 'Dathlu Cymunedau' ar hyd a lled Cymru ar ddechrau 2018, er mwyn ysbrydoli pobl i weithredu a hybu gwaith partneriaeth. Daeth dros 500 o bobl i'r digwyddiadau, a oedd yn dod â phartneriaid ar bob lefel at ei gilydd i rannu a dysgu gan arferion da, ac i drafod syniadau ac atebion newydd i helpu i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod ein cymunedau yn cefnogi pobl o bob oed.




Hefyd, mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru wedi cyhoeddi canllaw 'Sut i heneiddio'n dda' ar gyfer pobl hŷn, yn ogystal â chyfres o Gardiau Heneiddio'n Dda. Mae'r rhain yn helpu pobl hŷn – yn enwedig y rheini sydd â dementia a/neu nam ar y synhwyrau – i gyfleu eu hanghenion yn gynnil ac yn effeithiol wrth bobl sy'n gweithio mewn siopau ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Cafodd casgliad o 'Straeon Heneiddio'n Dda' hefyd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018, sy'n dathlu'r gwaith arloesol sy'n digwydd yn lleol ar gyfer pobl hŷn ac sy'n ceisio ysbrydoli pobl eraill

i weithredu yn eu cymunedau eu hunain er mwyn helpu pobl hŷn ym mhob cwr o Gymru i heneiddio'n dda.

Dolen i'r wefan: **Adroddiad Blynyddol Heneiddio'n Dda yng Nghymru**

## Diogelu ac Amddiffyn Pobl Hŷn

Mae sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn dal yn flaenoriaeth allweddol. Rwyf wedi gwneud amrywiol waith yn ystod 2017-18 i godi ymwybyddiaeth o natur y gamdriniaeth y mae dros 40,000 o bobl hŷn yn ei hwynebu bob blwyddyn, a'r amgylchiadau sy'n gallu gwneud iddyn nhw fod mewn sefyllfa fregus neu mewn perygl o niwed.

Rydym hefyd wedi parhau â'r gwaith i sicrhau dull systematig o nodi pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed, a bod y rheini sydd wedi cael eu cam-drin yn cael eu cefnogi'n llwyr i gael gafael ar yr help a'r cymorth angenrheidiol er mwyn gwella eu lles a bod yn ddiogel eto.

### Diogelu mewn Ysbytai yng Nghymru

Mae llawer o'r gefnogaeth a'r cymorth yr wyf fi'n eu rhoi i bobl hŷn drwy'r Tîm Gwaith Achos yn ymwneud â diogelu, ac mewn llawer o achosion mae pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch diogelu mewn ysbytai.

Rwyf wedi croesawu uchelgais Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i wella'r gwaith o ddiogelu oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso drwy roi sail statudol i hyn, a chreu dyletswyddau newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus. Felly, roeddwn am gael gweld sut mae'r Ddeddf yn gwneud gwahaniaeth i waith diogelu Byrddau Iechyd.

Gan ddefnyddio holiadur, yn ogystal â chyfweliadau dilynol â staff diogelu, casglwyd ystod eang o wybodaeth am waith diogelu Byrddau Iechyd – fel newidiadau i dimau diogelu, newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau, hyfforddiant staff, ffyrdd o gefnogi a chydweithio â dioddefwyr cam-drin honedig, mynediad at eiriolaeth a dysgu o achosion. Casglwyd gwybodaeth gan randdeiliaid adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd, sydd â gwybodaeth fanwl am ddiogelu oedolion.

Defnyddiwyd fy asesiad i o'r ymatebion fel sail i adroddiad – Diogelu mewn Ysbytai yng Nghymru – a gafodd ei rannu â Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd.

Er bod nifer o gynlluniau newydd ar waith mewn Byrddau Iechyd i fynd i'r afael â gofynion y Ddeddf, bod diogelu oedolion yn cael mwy o sylw mewn gwaith craidd a bod mwy o adnoddau ar gael, roedd yr adroddiad yn dweud bod nifer o ffactorau yn gwanhau'r dulliau gweithredu o bosib.

Wrth rannu'r adroddiad â Llywodraeth Cymru, fe eglurais fy mod yn disgwyl y byddai'r materion a nodwyd yn cael sylw, a gofynnais am ymateb ysgrifenedig gan y Gweinidog yn egluro pa gamau fyddai'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd.

**Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru**

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddais ganllawiau newydd ar y cyd â Llywodraeth Cymru i helpu gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n dod i gysylltiad â phobl hŷn i adnabod yr arwyddion o gam-drin domestig, ac i roi gwybodaeth iddyn nhw am yr help sydd ar gael i amddiffyn a diogelu pobl hŷn.

Mae'r canllawiau'n rhoi sylw i bob math o bynciau, gan gynnwys nodweddion y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu, sut mae adnabod ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi, effaith cam-drin a sut mae ymateb yn effeithiol.

Wrth lansio'r canllawiau, ailgadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda phartneriaid i amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig, a chroesawodd y canllawiau fel adnodd ymarferol a fyddai'n helpu gweithwyr proffesiynol i weithio'n fwy effeithiol gyda phobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig.

**Cyflwyniadau a Seminarau Codi Ymwybyddiaeth**

Gan adeiladu ar lwyddiant digwyddiadau tebyg a gynhaliwyd rhwng 2015-16 a 2016-17, cynhaliais bedair seminar ar ddiogelu er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu.  Roedd y seminarau'n rhoi sylw i raddfa ac effaith cam-drin, hawliau dynol, camdriniaeth o fewn cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol, rôl hollbwysig

eiriolaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rheini sydd wedi cael eu cam-drin.

**226**
**o bobl i'r seminar ar Ddiogelu**

Daeth 226 o bobl i'r seminarau, a'r rheini o bob math o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol i'r seminarau, gyda manyldeb yr wybodaeth a sa fbwynt aml-asiantaeth y siaradwyr yn derbyn canmoliaeth.

Yn ogystal â'r seminarau hyn, rhoddwyd 37 o gyflwyniadau ynghylch codi ymwybyddiaeth i 1,106 o randdeiliaid yn ystod 2017-18, a oedd yn sôn am raddfa ac effaith y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu ac yn egluro beth y mae angen ei roi ar waith er mwyn gwella bywydau pobl hŷn sy'n dioddef yn sgil cael eu cam-drin.

**1,106**
**o bobl mewn digwyddiadau diogelu**

**Mynd i'r afael ag esgeuluso pobl hŷn**
Un maes sy'n achosi mwy a mwy o bryder yw'r nifer gynyddol o achosion o esgeuluso pobl hŷn sy'n cael eu cofnodi, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â briwiau pwyso difrifol y gellid eu hosgoi. Drwy fy ngwaith achos ac adolygiad o sawl achos uchel ei broffil o esgeulustod yng Nghymru yn ymwneud â phobl hŷn, mae patrwm sy'n destun pryder yn ymddangos.

Ar hyn o bryd, mae diffyg atebolrwydd ymysg y rheini sydd â chyfrifoldeb dros ofalu am bobl hŷn agored i niwed, ac mae hyn yn peri rhwystredigaeth. Rwyf wedi dweud yn glir nad yw'r system cyfiawnder troseddol yn ddigonol os nad yw'n gallu dwyn i gyfrif y rheini sy'n methu darparu gofal digonol.

Un feirniadaeth o'r system bresennol, sydd hefyd yn feirniadaeth gan nifer o randdeiliaid, yw bod y bar tystiolaeth wedi'i osod yn uchel iawn i allu erlyn achosion troseddol o esgeulustod yn llwyddiannus, hyd yn oed pan fydd rhywun wedi marw oherwydd methiant i ddarparu gofal priodol. Felly, rwyf wedi parhau i alw am gael adolygu a diwygio deddfwriaeth i atal y broblem gynyddol hon rhag parhau, a mynnu bod y system gyfreithiol yn ei herio.

Drwy'r gwaith hwn, rwyf wedi dod i ddeall bod oedi wedi bod cyn cynnwys yr heddlu mewn rhai achosion o esgeulustod sy’n ymwneud â briwiau pwyso y gellid eu hosgoi. Y rheswm dros hyn yn aml iawn yw bod rhai sefydliadau wedi methu adnabod trosedd bosib, ac mae hyn yn golygu bod cyfleoedd wedi’u colli i gasglu tystiolaeth neu nad yw hynny wedi cael ei ystyried.

Yn yr un modd, nid yw’r heddlu bob amser yn ystyried llwybrau ymchwiliad syml, gan nad yw swyddogion yr heddlu yn ymwybodol o’u harwyddocâd mewn ymchwiliad posib. Mewn sawl achos, mae fy Nhîm Gwaith Achos wedi dwyn sylw'r heddlu at y ffeithiau hyn, ond gan fod llawer o amser wedi mynd heibio, mae cyfleoedd wedi'u colli i sicrhau tystiolaeth bosib neu i ddilyn llwybrau ymchwiliad. Er nad beirniadaeth o’r heddlu yw hyn, mae’n amlwg bod angen mwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y broblem hon.

Felly, fe luniais ddogfen ganllawiau ymchwiliadol (sy’n ymwneud â briwiau pwyso y gellid eu hosgoi) i roi’r wybodaeth berthnasol i swyddogion yr heddlu i’w helpu yn eu hymchwiliadau a’u cefnogi wrth iddynt ystyried llwybrau ymchwiliad posib a pherthnasol. Mae’r canllawiau’n cynnwys gwybodaeth sy’n diffinio’r gwahanol fathau o wlserau pwyso y mae modd eu hosgoi, gan ddweud yn glir bod hynny’n gallu deillio o esgeulustod troseddol, ac felly y dylai ein hasiantaethau sy’n gorfodi’r gyfraith roi sylw manylach i hynny.

Rydym wedi eu rhannu â’r Coleg Plismona er mwyn iddyn nhw ystyried ei ddefnyddio fel rhan o hyfforddiant yr heddlu, ac rydym wrthi’n trafod â’r Coleg i weld sut byddai modd bwrw ymlaen â hyn.

**Mynd i’r afael â sgamiau yng Nghymru**


Yn ystod 2017-18 bûm yn gweithio ar y cyd â’r Safonau Masnach Cenedlaethol, gan gynnig cymorth a chyllid er mwyn cyflwyno Cyfeillion yn erbyn Sgamiau yng Nghymru sy’n ceisio ysbrydoli pobl i weithredu, tynnu sylw at raddfa a natur sgamiau, newid argraff ynghylch pam mae pobl yn cael eu twyllo gan sgamiau, a sicrhau bod sgamiau ar frig yr agenda ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Mae’r gwaith hwn wedi arwain at gydweithio helaeth ag unigolion a sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector yng Nghymru, sydd wedi cymryd rhan yn Sesiynau Hyfforddiant Cyfeillion yn erbyn Sgamiau neu wedi ymrwymo i fod yn Hyrwyddwyr Cyfeillion yn erbyn Sgamiau.

## Dylanwadu ar Bolisi, Deddfwriaeth ac Ymarfer

**Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru**
Rwyf wedi parhau i gael cyfarfodydd rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ystod 2017-18, i sicrhau eu bod yn deall ac yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn ledled Cymru ac – yn bwysicach na hynny – bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed.

Roedd y cyfarfodydd hyn, ochr yn ochr â gwaith arall gyda Llywodraeth Cymru a'i swyddogion, yn gyfleoedd i fynegi pryderon am bolisïau ac arferion sydd ddim yn canolbwyntio ddigon ar bobl hŷn, ac i ddweud yn glir ym mhle mae angen gwneud newidiadau a gwelliannau.




Rwy'n dal i weithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd, gan roi nodiadau briffio i aelodau cyn dadleuon ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn. Hefyd, rwy'n dal i weithio'n agos gyda Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan rannu gwybodaeth a thystiolaeth i dynnu sylw at elfennau posib y mae craffu arnynt ac ymchwilio iddynt. Rwyf hefyd wedi rhoi tystiolaeth i chwe ymholiad pwyllgor yn ystod 2017-18.

**Ymateb i ymgynghoriadau**




Rwyf wedi ymateb i 20 ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid a chyrff allweddol eraill yn ystod 2017-18 – a'r rheini'n rhoi sylw i bob math o bynciau – gan ddefnyddio llais pobl hŷn a'r profiadau maen nhw wedi'u rhannu i nodi sut dylid siapio polisïau ac arferion er mwyn adlewyrchu eu hanghenion a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

**Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022**
Er i mi groesawu strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia fel cam cadarnhaol ymlaen, a chydnabod hyd a lled y materion y gallai roi sylw iddynt, dywedais yn glir yn fy ymateb i'r ymgynghoriad fod angen cryfhau sawl elfen yn y strategaeth er mwyn sicrhau y byddai'n cyflawni ei huchelgais i wella bywydau pobl sy'n dioddef yn sgil dementia.

Galwais am wella'r strategaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys rhoi mwy o sylw i hawliau, amrywiaeth ac eiriolaeth annibynnol; rhoi mwy o gydnabyddiaeth i lesiant ac anghenion gofalwyr; targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer hyfforddiant; gwella gwasanaethau seibiant; cynyddu rôl gweithwyr cymorth ar gyfer dementia; a gwella llwybrau ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes. Dywedais yn glir hefyd ei bod yn bwysig mynd ati mewn ffordd ystyrlon i gydweithio â phobl sy'n dioddef yn sgil dementia er mwyn llywio'r strategaeth.

Fel aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Dementia Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau â'm gwaith i ddylanwadu ar y strategaeth – a gafodd ei hailenwi'n Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 yn ystod y broses ddatblygu – er mwyn sicrhau y byddai anghenion pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn cael eu hadlewyrchu'n well yn fersiwn derfynol y cynllun.

Ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ym mis Chwefror 2018, fe ysgrifennais hefyd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddweud yn glir fy mod i'n croesawu sawl rhan o'r cynllun ond, oherwydd nifer o elfennau, fy mod yn poeni na fyddai'r cynllun – er gwaethaf ei uchelgais – yn sicrhau'r canlyniadau mae'r bobl sy'n dioddef yn sgil dementia am eu gweld ac angen eu gweld.

**Deddfwriaethau ym maes Gofal Cymdeithasol**
Rwyf wedi dweud yn glir bod mynd ati'n effeithiol i reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yn hollbwysig – nid yn unig er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn, ond hefyd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael gofal a chefnogaeth o'r safon uchaf.

Felly, roeddwn i'n croesawu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a'r safonau gofal newydd y mae'r Ddeddf yn ceisio eu cyflwyno drwy ei rheoliadau. Dywedais yn glir ei bod yn rhaid i ansawdd bywyd fod yn rhan ganolog o'r safonau gofal newydd hyn, a rhoddais sylwadau manwl ar y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig i sicrhau bod yr argymhellion yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn cael eu cyfleu'n briodol yn y gyfraith. Cafodd nifer o'r pethau y bûm yn galw amdanynt eu hadlewyrchu yn y Ddeddf ac mewn rheoliadau cysylltiedig.

Hefyd, mae Arolygiaeth Gofal Cymru (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynt) yn defnyddio trefn arolygu

newydd erbyn hyn, sy’n canolbwyntio mwy ar ansawdd bywyd a hawliau pobl hŷn. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael ei sefydlu fel y rheoleiddiwr newydd ar gyfer gweithlu gofal cymdeithasol, sy’n ceisio ‘sicrhau bod pobl Cymru yn gallu dibynnu ar weithlu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel, a fydd yn darparu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion yn llawn’.

Rwyf hefyd wedi rhoi sylw manwl i’r broses o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Drwy waith achos a chydweithio’n barhaus â’r Grŵp Gwerthuso i Randdeiliaid ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rwyf hefyd wedi parhau â’r gwaith i sicrhau bod pobl hŷn yn cael gofal a chefnogaeth yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol a’r egwyddorion sydd wedi’u nodi yn y ddeddfwriaeth.

Dolen i’r wefan: **Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad**

## Rhagolwg

Er bod fy nghyfnod fel Comisiynydd yn dod i ben ar 5 Mehefin 2018, mae rhaglen waith interim wedi cael ei llunio ar gyfer 2018-19 a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Cyhoeddi fy adroddiad Ailystyried Seibiant ar gyfer Pobl sy'n byw gyda Dementia.
- Cyhoeddi fy adroddiad ar Wasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru – Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn.
- Dadansoddi ymatebion cyrff cyhoeddus yn sgil cyhoeddi fy adroddiad dilynol ar gyfer yr Adolygiad o Gartrefi Gofal, 'Lle i'w Alw'n Gartref?: Effaith a Dadansoddiad'.
- Dadansoddi Cynlluniau Llesiant Awdurdodau Lleol.
- Cyhoeddi llyfrynnau gwybodaeth ar gyfer pobl hŷn ynghylch Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS).
- Creu fideo ar y cyd ag Age Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision eiriolaeth.

Bydd y Comisiynydd nesaf yn egluro'r gwaith pellach a gaiff ei wneud yn ystod 2018-19, ac yn datblygu cynllun strategol newydd i siapio ei flaenoriaethau fel Comisiynydd.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**6 Mehefin 2012 – 5 Mehefin 2018**

**Kelly Davies**[1]
**Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**24 Gorffennaf 2018**



[1]Gan fod cyfnod Sarah Rochira yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 5 Mehefin 2018, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn ei rôl fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

## 1.2 DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

**Crynodeb o Berfformiad: Nodyn Esboniadol**

Prif ffocws fy ngwaith i yw ysgogi newid ar ran pobl hŷn ledled Cymru, gan ddylanwadu ar bolisïau ac arferion drwy wneud gwaith ymchwil i weld sut gellir gwella gwasanaethau a chefnogaeth i bobl hŷn, cyhoeddi canllawiau ffurfiol i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, a gweithio gyda llywodraeth leol a chenedlaethol i sicrhau bod pobl yn deall anghenion pobl hŷn a'u bod yn cael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.

Gan nad yw fy nhîm a finnau'n darparu gwasanaethau yn yr ystyr draddodiadol, nid yw dangosyddion perfformiad allweddol arferol yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch a yw fy ngwaith wedi bod yn effeithiol.

Felly, mae'r crynodeb o'r perfformiad sy'n dilyn yn ystyried perfformiad o safbwynt mwy strategol, o ran beth sydd wedi'i gyflawni o'i gymharu â phob un o'r blaenoriaethau a nodwyd yn fy Fframwaith Gweithredu 2013-17. Mae'r dull gweithio hwn yn rhoi cyfle i mi sicrhau fy mod yn ysgogi newid ar gyfer yr holl faterion y mae pobl hŷn yn dweud sydd bwysicaf iddynt.

D.S. Mae sawl darn o waith a wnaed yn ystod 2017-18 yn ymwneud â mwy nag un o'm meysydd blaenoriaeth, ac mae'r tabl dros y dudalen yn adlewyrchu hynny.


## Crynodeb o Berfformiad

| Blaenoriaeth un: Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus | Blaenoriaeth dau: Gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael | Blaenoriaeth tri: Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a'r seilwaith cymunedol | Blaenoriaeth pedwar: Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed, a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn | Blaenoriaeth pump: Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu |
|---|---|---|---|---|
| Casglu tystiolaeth gan randdeiliaid am brofiadau pobl hŷn o gael mynediad at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, a'u profiad o'i defnyddio.<br><br>Casglu tystiolaeth i ddeall sut mae effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael ei gwerthuso mewn perthynas â phobl hŷn.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth drwy'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru.<br><br>Wedi rhoi cefnogaeth | Wedi cyhoeddi gwaith dilynol sy'n gysylltiedig ag Adolygiad y Comisiynydd o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.<br><br>Casglu tystiolaeth am waith dilynol sy'n gysylltiedig ag adroddiad y Comisiynydd – 'Dementia: mwy na dim ond colli'r cof' – ynghylch gofal seibiant i bobl sy'n dioddef yn sgil dementia. | Wedi gwneud gwaith partneriaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn a Chymunedau sy'n cefnogi Pobl â Dementia drwy'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. | Wedi cynnal seminarau diogelu i godi ymwybyddiaeth o raddfa ac effaith y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu, i ddysgu mwy am y mater a'i ddeall yn well.<br><br>Wedi cynnal seminar gwaith achos i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall yn well beth yw profiadau pobl sy'n cysylltu â fy nhîm gwaith achos, a sut gallai cyrff cyhoeddus ymateb yn well pan fydd eu penderfyniadau'n cael eu cwestiynu.<br><br>Wedi adrodd yn ôl ar ba mor effeithiol mae byrddau iechyd yn ymateb i'w | Wedi gwneud gwaith partneriaeth sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd gwaith a dysgu drwy'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ffurfiol i Wobrau Gofal Cymru a Gwobrau Nyrs y Flwyddyn y Coleg Nyrsio Brenhinol, er mwyn sicrhau bod unigolion rhagorol sy’n gweithio yn ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cydnabod a’u dathlu. | | | dyletswyddau diogelu newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Wedi gweithio mewn partneriaeth â’r Safonau Masnach Cenedlaethol i gynnig cymorth a chyllid er mwyn gallu cyflwyno Cyfeillion yn erbyn Sgamiau yng Nghymru, sy’n ceisio ysbrydoli pobl i weithredu, tynnu sylw at raddfa a natur sgamiau a sicrhau bod sgamiau ar frig yr agenda ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.<br><br>Cynnig cefnogaeth gwaith achos i bobl hŷn a’u teuluoedd ledled Cymru. | |
| Ymatebion i ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r dystiolaeth a ddarperir i’r Pwyllgorau, gan ddefnyddio lleisiau a phrofiadau pobl hŷn i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion fel bod hyn yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. | | | | |
| Ymgysylltu helaeth gyda phobl hŷn ledled Cymru (dros 4,300 o bobl) i sicrhau eu bod yn gwybod am waith y Comisiynydd a sut y gall eu helpu nhw, a sicrhau bod eu lleisiau’n parhau i arwain a siapio gwaith y Comisiynydd. | | | | |

## Dyrannu gwariant i feysydd blaenoriaeth y Comisiynydd

Mae'r siart isod yn nodi'r cyfanswm gwariant sydd wedi'i ddyrannu yn erbyn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn fy Fframwaith Gweithredu, sy'n rhoi cipolwg mwy ystyrlon o'r modd rwyf yn gwario'r arian sydd ar gael i mi na'r penawdau adrodd ariannol safonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cyfrifon Blynyddol:




Roedd y gyfran fwyaf o'r gwariant yn ystod 2017-18 yn ymwneud â'r maes blaenoriaeth 'Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn'. Mae diogelu pobl hŷn bob amser wedi bod yn flaenoriaeth allweddol, a rhoddir pwyslais penodol ar gynnig cefnogaeth gwaith achos i bobl hŷn a'u teuluoedd ledled Cymru.  Yn ystod 2017-18, dyma oedd wedi denu'r gyfran fwyaf o wariant y rhaglen: £62k o gyfanswm gwariant y rhaglen, sef £179k.

Rwyf wedi nodi gwariant rhaglenni yn erbyn meysydd blaenoriaeth ar dudalen 88.

## Ein Huchafbwyntiau o ran Perfformiad Ariannol

Mae'r pwyntiau canlynol yn dangos sut mae gwariant wedi amrywio rhwng 2015 a 2018 ac yn rhoi darlun cyffredinol o’r patrymau gwariant, gan nodi y bu 10% o ostyngiad yn fy nghyllideb yn 2016-17.

Yn ystod 2016-17, roeddwn i’n poeni y byddai fy nghyllideb ar gyfer 2017-18 yn cael ei chwtogi hefyd, ac felly roeddwn i wedi tanwario £196k o’r arian a oedd wedi’i ddyrannu i mi. Byddai hyn wedi fy ngalluogi i reoli'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â thoriad arall yn y gyllideb, heb danseilio fy ngallu i weithredu o fewn fy strwythur presennol.

- Rhaglen waith:
  Gall y rhaglen waith a ddilynir amrywio’n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, a gall groesi mwy nag un flwyddyn ariannol hefyd.

  Gan na chafwyd y toriad yn y gyllideb y soniwyd amdano’n gynharach, trosglwyddais £92k o danwariant 2016-17 yn erbyn yr arian a ddyrannwyd i fy rhaglen waith weithredol sydd â chostau newidiol; mae £73k arall o’r tanwariant wedi cael ei ddyrannu i’r rhaglen waith ar gyfer 2018-19.

  Bydd unrhyw doriadau pellach yn y gyllideb yn rhoi pwysau ar wariant y rhaglen, gan fod mwy a mwy o’r gyllideb yn cael ei gwario ar gostau cyflogi a gweinyddu.

- Rhent:
  Yn sgil yr adolygiad rhent ym mis Awst 2016, cytunais ar gyfnod o bum mlynedd ar gyfer y brydles – o 5 Awst 2018 ymlaen. Pennwyd y rhent taladwy ar gyfer tair blynedd gyntaf y cyfnod, gyda blynyddoedd pedwar a phump i'w cytuno yn ystod 2021-22; disgwylir i’r taliadau rhent gynyddu yn y dyfodol. Mae'r rhent wedi'i osod ar gyfradd hynod gystadleuol ar hyn o bryd; felly mae’n annhebygol y gellid arbed costau yn yr elfen hon yn y dyfodol.

  Mae’r cynnydd yn y gwariant cymaradwy yn deillio o ffi blwyddyn gyfan ar gyfer y brydles newydd sydd wedi’i chynnwys yn 2017-18.

- Costau eraill o ran adeiladau:
  Mae’r costau adeiladau wedi lleihau rhyw fymryn yn ystod 2017-18, oherwydd bod ffi gydbwyso hwyr yn ymwneud â 2015 wedi cael ei

chynnwys yng nghyfrifon 2016-17. Disgwylir i'r costau hyn barhau i godi yn unol â chynnydd yn ffioedd y dreth cyngor a'r ffioedd gwasanaeth, ac nid oes modd rheoli hynny.


- Treuliau gweinyddol eraill:
  Er mwyn arbed costau o fewn fy ngwariant gweithredu cyffredinol, rwyf wedi defnyddio'r Fframwaith Caffael Cenedlaethol, wedi gwneud tendrau ar y cyd â Chomisiynwyr eraill ac wedi ail-negodi contractau gyda'r cyflenwyr presennol. Mae'r costau wedi cynyddu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'n annhebygol y byddai modd gwneud unrhyw arbedion sylweddol eraill.

- Ffioedd proffesiynol:
  Bydd ffioedd proffesiynol yn dal i amrywio yn y dyfodol, oherwydd mae'n bosib y bydd angen i mi weithredu ar unrhyw faterion pwysig, brys ac annisgwyl sy'n dod i'm sylw. Un ffocws penodol yn ystod 2017-18 oedd paratoi i gyflwyno'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data ym mis Mai 2018.


- Hyfforddiant a datblygu:
  Un o'r amcanion strategol allweddol yw cael ein cydnabod fel cyflogwr sy'n esiampl dda i eraill drwy gefnogi staff i berfformio hyd eithaf eu gallu, a sicrhau bod ganddynt y cymwyseddau a'r sgiliau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r busnes. Wrth wraidd yr amcan hwn mae cyllideb hyfforddiant hael sydd ar gael i'r holl staff. Cafodd y gyllideb hon ei defnyddio'n llawn yn ystod 2017-18, a bydd ar gael i'r staff eto yn 2018-19.

- Costau staff:
  Mae ffigurau 2 a 3 yn dangos bod rhan sylweddol o'm cyllideb yn cael ei gwario ar gostau staff, a bydd hyn yn parhau yn y dyfodol oherwydd natur y gwaith. Ar ôl i mi ad-drefnu'r sefydliad yn 2015-16, roedd costau staff yn uchel yn 2015-16 gan eu bod yn cynnwys y taliadau Ymadael yn Wirfoddol a wnaed i saith aelod o staff. Ond, bydd y treuliau hyn yn parhau i roi pwysau sylweddol ar fy adnoddau oherwydd codiadau cynyddrannol yng nghyflogau gweithwyr a chynnydd mewn costau byw.


Oni bai ein bod yn newid strwythur y sefydliad yn llwyr, nid oes arbedion pellach i'w gwneud o fewn fy nghostau gweithredu.




Ffigur 1: Cymharydd tair blynedd ar gyfer Gwariant Gweithredu'r Comisiynydd




Ffigur 2: Cymharydd tair blynedd ar gyfer costau staff y Comisiynydd




Ffigur 3: Gwariant y Comisiynydd yn 2017-18, sy'n dangos rhagor o fanylion am wariant heb fod ar staff

## Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi ymroi i arferion cynaliadwy.

Mae ein Polisi Cynaliadwyedd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Cydymffurfio â phob deddfwriaeth, rheoliad a chod ymarfer perthnasol, a gwneud mwy na'r hyn sydd raid lle y bo'n ymarferol.
- Integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd yn ein penderfyniadau busnes, lle y bo'n bosib.
- Sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'n Polisi Cynaliadwyedd a'u bod wedi ymroi i'w weithredu a'i wella.
- Lleihau effaith cynaliadwyedd ar holl weithgareddau'r swyddfa a chludiant.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'n Polisi Cynaliadwyedd, a'u hannog i fabwysiadu arferion rheoli cynaliadwy pendant.
- Adolygu, adrodd yn flynyddol a cheisio gwella ein perfformiad o ran cynaliadwyedd drwy'r amser.

Rwyf wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Dyma enghreifftiau o'r ffordd rwyf yn gweithredu stiwardiaeth amgylcheddol dda:

- Defnyddio ynni – fel un o nifer o denantiaid mewn bloc swyddfeydd bach modern, nid yw'n bosib bod â rheolaeth lwyr dros y cyfleusterau dŵr, gwres a goleuo. Fodd bynnag, ceir falfiau rheoli thermostatig ar bob gwresogydd, bylbiau arbed ynni, a goleuadau sensitif i symudiad mewn rhai mannau yn y swyddfa.

- Defnyddio ceir – nid oes gan y swyddfa gerbydau ond mae'n annog staff i ddefnyddio ceir llog ar gyfer siwrneiau hwy er mwyn bod mor effeithlon â phosib. Caiff staff eu hannog i rannu ceir ar gyfer siwrneiau swyddogol lle bo hynny'n ymarferol. Anogir defnyddio cludiant cyhoeddus pryd bynnag y bo hynny'n briodol.

- Cyfarfodydd – mae staff yn cael eu hannog i osgoi teithio i gyfarfodydd os oes ffyrdd eraill ar gael a'u bod yn ymarferol, fel defnyddio telegynadledda, fideo-gynadledda neu gwegamerâu, ac amseru'r cyfarfodydd yn effeithlon er mwyn osgoi sawl taith.

- Rheoli papur – mae'r holl staff yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd a'r e-bost ac yn cael defnyddio mewnrwyd y swyddfa, sy'n golygu bod

modd cael gafael ar wybodaeth heb yr angen am systemau dosbarthu papur. Rydym yn ceisio defnyddio cyn lleied â phosib o bapur a nwyddau eraill yn y swyddfa, er enghraifft drwy argraffu ar ddwy ochr y papur a nodi cyfleoedd i leihau gwastraff.

- Gwaredu Gwastraff – mae gweithdrefnau ar waith i ailgylchu deunyddiau, gan gynnwys papur, cardbord a rhai mathau o blastig. Mae trefniadau hefyd ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd.

  Ceir gwared â phapurau'n cynnwys gwybodaeth sensitif drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol, oherwydd y ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd yn ein deddfwriaeth alluogi. Mae gan y swyddfa dystysgrif cyflawniad amgylcheddol sy'n tystio bod ein rhaglen rwygo ac ailgylchu wedi arbed 31.24 o goed rhag cael eu dinistrio yn 2017-18 (22.7 yn 2016-17).

- Cynnyrch – anogir cyflenwyr i ddefnyddio nwyddau ecogyfeillgar lle bynnag y bo modd. Rwyf yn defnyddio nwyddau papur amgylcheddol-gadarn megis papur ac amlenni wedi eu hailgylchu. Defnyddir cynnyrch glanhau sy'n ecogyfeillgar i lanhau'r swyddfa.

- Addysg – rwyf wedi ymroi i gynnal sesiynau hyfforddiant addysgol i aelodau staff am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sut gall gweithwyr gyfrannu yn ystod oriau gwaith a drwy eu bywydau y tu allan i'r gweithle.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Er nad yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ddyletswydd o ran corff cyhoeddus sy'n rhwym wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sydd wedi'i hamlinellu yn Adran 5 o'r Ddeddf.

Wrth weithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, bydd y Comisiynydd yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn i ddatblygu cynaliadwy, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi cyfres o 'Amcanion llesiant a chynaliadwyedd' drwy'r Datganiad Polisi Cynaliadwyedd. Bydd yr amcanion hyn yn helpu i gefnogi'r 'Nodau Llesiant' sydd wedi'u hamlinellu yn Adran 4 o'r Ddeddf.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Fel awdurdod cyhoeddus o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ac i hyrwyddo ecosystemau cadarn yng Nghymru.

O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi cynllun sy'n egluro'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ymgorffori yn Natganiad Polisi Cynaliadwyedd y Comisiynydd, a bydd yn cael ei adolygu bob tair blynedd ochr yn ochr ag adroddiad sy'n egluro sut mae'r Comisiynydd wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei lunio cyn diwedd 2019, fel sy'n ofynnol yn y Ddeddf.

Dolen i'r wefan: **Datganiad Polisi Cynaliadwyedd**

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**6 Mehefin 2012 – 5 Mehefin 2018**

**Kelly Davies**[1]
**Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**24 Gorffennaf 2018**

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad. Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Fy adroddiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion am yr uwch dîm rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a sut rwy'n dangos ein bod yn cydymffurfio â rheolaeth gorfforaethol dda.
- Mae fy Adroddiad ar Staff a Thaliadau yn rhoi gwybodaeth am daliadau uwch reolwyr, fy natgeliad cyflog teg a gwybodaeth am faterion cyflogaeth eraill.
- Mae'r Adroddiad Archwilio yn cynnwys barn derfynol ein Harchwilydd.

## 2.1 ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## Adroddiad y Cyfarwyddwr

### Gweithio yn Swyddfa'r Comisiynydd

Yn ystod 2017-18, roeddwn i'n cyflogi 21.49 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (19.40 yn 2016-17). Roedd y Tîm Rheoli Strategol a oedd yn gweithio gyda mi yn ystod 2017-18 yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| Kelly Davies | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol<br>Dirprwy Gomisiynydd |
| Daisy Cole | Cyfarwyddwr Lles a Grymuso |

Bydd fy nghyfnod i fel Comisiynydd yn dod i ben ar 5 Mehefin 2018, a bydd cyfnod interim cyn i'r Comisiynydd newydd ddechrau ar y swydd. Yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 4 (3) caiff y Dirprwy Gomisiynydd gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd pan fydd swydd y Comisiynydd yn wag neu unrhyw bryd na fydd y Comisiynydd, am unrhyw reswm, yn gallu gweithredu. Bydd angen llofnodi'r cyfrifon blynyddol yn ystod y cyfnod interim hwn, felly Kelly Davies – fel Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru – fydd yn gwneud hynny.

Mae gwybodaeth gryno ar gael isod am aelodau fy Nhîm Rheoli Strategol ar 31 Mawrth 2018.

## Sarah Rochira

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Ymgymerais â swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar ôl 25 mlynedd yn gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru.

Yn ystod fy ngyrfa, rwyf wedi gweithio mewn ystod eang o sefydliadau'r GIG ledled Cymru, gyda chyfrifoldebau penodol am ansawdd gwasanaethau clinigol, gwella iechyd, a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Rwyf wedi gweithio'n helaeth gyda a dros bobl hŷn. Bûm yn Gyfarwyddwr RNIB Cymru rhwng 2008 a 2012 ac rwyf hefyd wedi bod yn ymgyrchu'n frwd dros sicrhau newidiadau ym mholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Cyn cael fy mhenodi'n Gomisiynydd, roeddwn yn gadeirydd Cynghrair Henoed Cymru, sef cynghrair o 20 mudiad gwirfoddol sydd wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i wella bywydau pobl hŷn.

Yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd Pobl Hŷn, rwyf yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu, a'u bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd gwerthfawr sy'n llawn ystyr a phwrpas.

Fel Comisiynydd, rwyf wedi sefydlu'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ac rwyf hefyd yn cadeirio'r rhaglen honno – partneriaeth gydweithredol rhwng sefydliadau a chyrff cenedlaethol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles pobl 50 oed a hŷn ledled Cymru.

## Kelly Davies

**Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Dirprwy Gomisiynydd**

Ymunodd Kelly â sefydliad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Hydref 2011 fel Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Cyn hynny, bu'n gweithio fel Pennaeth Swyddfa a Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned dros Aelodau Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gan Kelly dros 11 mlynedd o brofiad o weithio ym maes gwleidyddiaeth yng Nghymru, ac mae wedi bod yn gweithio gyda gwleidyddion i lunio strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu yn ogystal â gweithio ar nifer o ymgyrchoedd etholiadol ar lefel leol, genedlaethol ac Ewropeaidd.

Kelly yw'r Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol ac mae'n gyfrifol am gymryd yr awenau gyda'r holl gyfathrebu mewnol ac allanol ac am sicrhau bod gan y Comisiynydd a'r sefydliad enw da cadarnhaol, uchel ei broffil, am wneud safiad ac am siarad ar ran pobl hŷn, ac am lywio a chyflawni newidiadau trawiadol sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn.

Mae Kelly yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y systemau, y prosesau, y rheolaethau a'r wybodaeth ar waith ac ar gael er mwyn fy ngalluogi i gydymffurfio'n llawn â'm dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â: Llywodraethu Corfforaethol, Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Risg a Pherfformiad, Rheoli Prosiectau a Chyfleusterau ac Adnoddau.

Kelly yw'r Dirprwy Gomisiynydd penodedig yn rhinwedd isbaragraff 4(1) Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 ('y Ddeddf').

### Daisy Cole

**Cyfarwyddwr Lles a Grymuso**

Ymunodd Daisy â sefydliad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Mai 2013. Cyn hyn, bu'n gweithio i Gyngor Ffoaduriaid Cymru fel Cyfarwyddwr Dylanwadu.

Dechreuodd diddordeb Daisy mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 1992, pan oedd hi'n weithiwr cymdeithasol preswyl yn Ealing, Llundain. Ers hynny, mae wedi bod yn gweithio i wella iechyd a lles oedolion a phlant o amrywiaeth eang o gefndiroedd mewn gwasanaethau cymunedol ac yn y trydydd sector.
Mae Daisy hefyd wedi gweithio i Lywodraeth Cymru fel cynghorydd polisi ar gyfer Cynllun Gweithredu trawsbleidiol y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid. Hi hefyd oedd yn gyfrifol am sefydlu fforwm y trydydd sector yn erbyn masnachu mewn pobl.

Mae Daisy yn gyfrifol am arwain ar fy amcanion i wella bywydau pobl hŷn mewn tri maes, sef:

- Blaenoriaeth Un: Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus
- Blaenoriaeth Dau: Gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael
- Blaenoriaeth Tri: Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a'r seilwaith cymunedol

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol. Maent yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, maent hefyd yn ystyried fy nhrefniadau ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd ac yn cadw golwg feirniadol ar fy ngweithdrefn rheoli risg a rheolaeth ariannol.

| | |
|---|---|
| Steve Harford | Penodwyd ar 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2020<br>Penodwyd yn Gadeirydd ym mis Ebrill 2017 |
| Mutale Merrill | Penodwyd ar 1 Mehefin 2014 tan 31 Mai 2018 |
| Steve Milsom | Penodwyd ar 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2020 |
| Phil Davy | Penodwyd ar 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2021 |

Ar ôl i'r Cadeirydd, Ian Summers, adael y Pwyllgor, penodwyd aelod newydd i fod ar y Pwyllgor gan gychwyn ar 1 Ebrill 2017. Gofynnwyd i Steve Harford fod yn Gadeirydd o 1 Ebrill 2017.

Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio:

### Steve Harford (Cadeirydd)



Mae gan Steve Harford dros 40 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru. Mae ganddo MBA o Brifysgol Caerdydd, mae'n aelod o'r Sefydliad Marchnata Siartredig ac yn aelod cysylltiedig o'r Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Treuliodd Steve y 18 mlynedd diwethaf o'i yrfa gyda Gyrfa Cymru ac mae newydd ymddeol o'i rôl fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Yn ystod ei gyfnod gyda Gyrfa Cymru, bu'n cynghori ac yn arwain y gwaith o uno'r chwe Chwmni Gyrfa lleol blaenorol i greu un sefydliad ar draws Cymru gyfan. Wedyn, bu'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drosglwyddo perchnogaeth Gyrfa Cymru i fod yn is-gorff ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.

Mae Steve yn Gyfarwyddwr/Ymddiriedolwr Carers Trust De-ddwyrain Cymru, ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gwent am wyth mlynedd cyn hynny. Ers iddo ymddeol, mae Steve wedi'i benodi yn aelod o Fwrdd Pensiynau Lleol Cronfa Bensiynau Gwent Fwyaf (Torfaen).

### Mutale Merrill



Mae Mutale Merrill wedi treulio sawl blwyddyn yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yng Nghymru ar ôl gorffen ei MBA ym Mhrifysgol Caerdydd.

Hi oedd Prif Weithredwr cyntaf BAWSO, prif ddarparwr y trydydd sector yng Nghymru ar gyfer plant a merched o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig sy'n wynebu cam-drin domestig a phob math arall o gam-drin a thrais.

Mutale oedd Cadeirydd cyntaf Cyngor Gofal Cymru ac Is-gadeirydd cyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Hi yw Cadeirydd Panel Cynghori Is-Sahara gan weithio gyda grwpiau o alltudion Affricanaidd yng Nghymru i wella effaith ymyriadau datblygu rhyngwladol, ac mae wedi derbyn nifer o wobrau gan gynnwys Cymraes y Flwyddyn yn 1997, am waith yn y gymuned, a'r OBE yn 2008, am ei gwaith ym maes gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

### Steve Milsom



Bu Steve yn was sifil yn Swyddfa/Llywodraeth Cymru am 39 mlynedd, gan gyrraedd yr Uwch-Wasanaeth Sifil fel Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Bu Steve yn gweithio mewn amrywiol uwch swyddi ym maes Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol am 16 mlynedd, a bu'n arwain y gwaith o ddatblygu nifer o bolisïau newydd. Roedd

ganddo rôl arwyddocaol yn y gwaith o ddatblygu strategaethau a deddfwriaeth ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ef fu'n arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

Mae gan Steve gymwysterau ôl-radd gyda gradd Meistr ym maes Astudiaethau Heneiddio a Diploma mewn Astudiaethau Rheoli – y ddau ar lefel Teilyngdod. Mae Steve wedi dod yn Ymgynghorydd Cysylltiedig gyda Practice Solutions Cyf. Roedd yn aelod o’r grŵp cynghori ac yn gofnodwr ar gyfer Adolygiad y Comisiynydd o Ansawdd Bywyd a Gofal mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru (2014), a gwnaeth werthusiad o Raglen Cyfoethogi Ansawdd Bywyd mewn chwe chartref gofal yng ngogledd Cymru (2015). Mae’n aelod o Banel Arbenigol Pobl Hŷn y Comisiynydd ar Hawliau Dynol Pobl Hŷn. Mae Steve yn ymddiriedolwr gyda Chynghrair Pobl Hŷn Cymru ac Age Cymru. Mae hefyd yn is-gadeirydd Fforwm 50+ Caerffili ac yn aelod o Fforwm Cynghori’r Gweinidog ar Heneiddio – Llywodraeth Cymru.

**Aelod newydd ers 1 Ebrill 2017:**
**Phil Davy**



Cymhwysodd Phil Davy fel cynllunydd tref. Bu mewn swyddi yn Swydd Gaerloyw, Reading a Dyfnaint, cyn dod yn Brif Swyddog Cynllunio gyda Chyngor Bwrdeistref Islwyn. Ymunodd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili pan ffurfiwyd yr awdurdod lleol newydd yn 1996.

Roedd Phil yn Bennaeth Datblygu Economaidd am 10 mlynedd, gan reoli maes gwasanaeth a oedd yn cynnwys datblygu busnes, twristiaeth, ac adfywio. Yn fwy diweddar, datblygodd y strategaeth gweithredu ar gyfer rhaglen fuddsoddi gwerth £220m i wella stoc tai Cyngor Caerffili o 11,000 o gartrefi er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae Phil wedi bod mewn sawl rôl cyfarwyddwr anweithredol gyda Gyrfa Cymru, Groundwork Caerffili a Cymorth Cynllunio Cymru. Ar ôl 43 mlynedd o wasanaeth ym maes llywodraeth leol, fe ymddeolodd Phil o waith llawn amser, ond mae wedi ymgymryd â rôl ran-amser yn awr fel Clerc Tref i Gyngor Tref Caerffili.

Ar hyn o bryd, mae Phil yn Ymddiriedolwr gyda Chanolfan Cyngor ar Bopeth Torfaen.

### Yr Iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i mi ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Yn ystod 2017/18, rwyf wedi cydymffurfio â'r holl Safonau ac wedi parhau i ddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Rwyf wedi parhau i gymryd pob cam posib i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynnal cyfarfodydd tîm am y Safonau a hanes y Gymraeg, cyflogi nifer o staff dwyieithog, darparu gwasanaeth gwaith achos dwyieithog i bobl hŷn, darparu gwersi Cymraeg i bob aelod o staff yn ystod amser gwaith, a gweithredu amgylchedd gweithio dwyieithog.

Dolen i'r wefan: **Safonau'r Gymraeg**

### Cydnabod Rhagoriaeth

Er mwyn cydnabod arferion da a'r unigolion ymroddgar sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl hŷn drwy eu gwaith, rwyf wedi parhau i gyfeirio at y rheini mewn cyhoeddiadau ac areithiau, ochr yn ochr â rhoi cefnogaeth ffurfiol drwy gynnig nawdd blynyddol ar gyfer Gwobrau Nyrs y Flwyddyn y Coleg Nyrsio Brenhinol – £6k yn 2017-18 (£6k yn 2016-17) – a Gwobrau Gofal Cymru – £2k yn 2017-18 (£2k yn 2016-17).

### Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.  Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad Taliadau.

### Polisi Taliadau

Rwyf yn ceisio cydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y DU. Y targed yw gwneud taliadau yn unol â thelerau talu y cytunwyd arnynt, neu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes anghytuno yn eu cylch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad talu'r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 99.48% wedi'u talu ar amser (99.58% yn 2016-17). Ni thalwyd llog yng nghyswllt taliadau hwyr.

## Buddiannau Arwyddocaol y Bwrdd

Mae cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Cyfarwyddwyr ac aelodau Pwyllgorau ar gael ar fy ngwefan.

Dolen i'r wefan: **Cofrestr Buddiannau**

## Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod 2017-18 doeddwn i nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Strategol, nac unrhyw aelod o'u teulu, yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol.

## Trefniadau archwilio

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12, Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2017-18 yw £14k (£14k yn 2016-17).

Darparwyd y gwasanaethau archwilio mewnol gan Deloitte yn 2017-18. Yn dilyn ymarfer tendro ar y cyd gyda Chomisiynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, trefnwyd contract newydd a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2020, gyda'r opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn ychwanegol.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac Archwilio Mewnol ar gael yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 46.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

## Datgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**6 Mehefin 2012 – 5 Mehefin 2018**

**Kelly Davies**[1]
**Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**24 Gorffennaf 2018**

## Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn ei gymryd er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac wedi datgelu'r wybodaeth i'r archwilwyr. Cyn belled ag yr ydw i'n ymwybodol, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd, y gwariant net, y sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Fel Dirprwy Gomisiynydd, fi, yn rhinwedd paragraff 4 ac 11, atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer fy swydd. Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi'n bersonol sy'n gyfrifol am briodoldeb a chysondeb y cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Comisiwn, fel y maen nhw wedi'u nodi yn y memorandwm Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, ac yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

# Datganiad Llywodraethu

Mae’r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi sail dyletswyddau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y ffordd y caiff sut rwy’n cyflawni fy nyletswyddau ei llywodraethu a’i rheoli, a sut rwyf i, fel Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyma ddyletswyddau statudol y rôl:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru;
- hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru; gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn;
- annog arferion da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru; a
- chadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy’n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd.

Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros gyfarwyddo a rheoli’r sefydliad ond gallaf awdurdodi unrhyw aelod o staff i weithredu fy swyddogaethau. Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel y byddai gan gyrff cyhoeddus eraill, rwyf wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i’m cefnogi yn fy rôl Lywodraethu.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae’r fframwaith llywodraethu rwy’n ei ddilyn yn cynnwys systemau, polisïau a phrosesau allweddol, y mae’r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a’i reoli drwyddynt. Mae hefyd yn cynnwys gwerthoedd a diwylliant y sefydliad.

Mae’r fframwaith llywodraethu yn fy ngalluogi i gyflawni’r prif amcanion yn fy Fframwaith Gweithredu strategol 2013-17.

Mae systemau rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i:

- sicrhau cywirdeb ariannol;
- sicrhau fy mod yn cydymffurfio â'm dyletswyddau statudol; a
- sicrhau fy mod yn nodi, gwerthuso a rheoli risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r systemau hyn yn gweithio mewn modd integredig, gan adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu integredig o lywodraethu a rheoli.

Gall y systemau rheolaeth fewnol hyn ddarparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd.

## Fframwaith llywodraethu

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu Dirprwy a all gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na fyddaf i yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Kelly Davies, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, yw'r Dirprwy a ddewiswyd gennyf. Mae meysydd gweithredol eraill lle mae fy Nghyfarwyddwyr yn cael awdurdod dirprwyedig wedi'u nodi yn y disgrifiad swyddi ar gyfer rolau unigol. Mae cynllun dirprwyo ariannol ar gael yn fy 'Nhrefniadau Archebu Nwyddau a Gwasanaethau'. Mae hwn hefyd ar gael ar fy ngwefan. Bob blwyddyn, mae fy nghynllun busnes yn cefnogi fy mlaenoriaethau, sydd wedi'u cyflwyno yn fy Fframwaith Gweithredu.

Roedd tair prif ffynhonnell o sicrwydd yn fy fframwaith llywodraethu yn 2017-18, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Rhaglen archwilio fewnol
- Tîm rheoli strategol

Mae'r tair prif ffynhonnell o sicrwydd yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol mewn modd sy'n gyson â Chod Llywodraethau Corfforaethol y DU a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, hynny yw, yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (y Pwyllgor) i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.
Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fwlch o ran gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor ac er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol i'm cynorthwyo i gyflawni fy swyddogaethau statudol, mae aelodau'n dod i ddiwrnodau datblygu, lle byddaf i a'm staff yn rhoi gwybodaeth iddynt am faterion strategol. Rwyf hefyd yn anfon yr wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion pwysig, fel maent yn codi, dros e-bost. Mae hyn yn cynnwys uwchgyfeirio unrhyw risgiau i lefel y Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac mae aelodau'n derbyn nifer o bapurau sy'n cynnwys eitemau ar yr agenda cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

Yn 2017-18, cynhaliais ddiwrnod datblygu gyda'r Cyfarwyddwyr ac aelodau'r Pwyllgor. Pwrpas y diwrnod hwn oedd:

- adolygu a thrafod blaenoriaethau busnes am y flwyddyn;
- nodi a rhoi sylw i'r gwaith o reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau hynny;
- ystyried effaith gronnus unrhyw rai o'r risgiau a'r cyfleoedd;
- adolygu a monitro polisïau'r sefydliad; ac
- adolygu fformat a chynnwys yr wybodaeth a ddarperir i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol gyda phrofiad sylweddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae presenoldeb yn y cyfarfodydd wedi'i nodi isod:

| | Mai 2017 | Gorffennaf 2017 | Tachwedd 2017 | Chwefror 2018 | Diwrnod datblygu<br>Medi 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Steve Harford (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mutale Merrill | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Steve Milsom | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Phil Davy* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

* Aelod newydd ers 1 Ebrill 2017

Mae gofyn i mi adolygu a chylchdroi amrywiaeth, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cronnus aelodau fy Mhwyllgor yn rheolaidd, yn unol ag arferion da. Daeth Steve Harford yn Gadeirydd y Pwyllgor o 1 Ebrill 2017, ar ôl i gyfnod Ian Summers yn y rôl ddod i ben.  Ymunodd Steve Harford a Steve Milsom yn ystod 2016-17, am gyfnod o bedair blynedd, ac ymunodd Mutale Merrill fel aelod newydd eto am gyfnod o bedair blynedd yn ystod 2014-15. Yn dilyn proses recriwtio a gynhaliwyd yn 2016-17, penodwyd Phil Davy i'r swydd a fydd yn wag ar ôl Ian Summers.

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl ffurfiol, sy'n seiliedig ar ganllawiau ar arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys, sy'n cael eu hadolygu'n barhaus. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i sicrhau gwell tryloywder i'n trefniadau llywodraethu.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd i gyfarfodydd blynyddol gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg eraill i rannu arferion da a'r hyn sydd wedi'i ddysgu.

Bob dwy flynedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i archwilydd mewnol y Comisiynydd (Deloitte) gynnal adolygiad annibynnol o'u heffeithlonrwydd gan ddefnyddio Rhestr Wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Effeithlonrwydd Pwyllgorau Archwilio. Cynhelir trafodaethau â'r Comisiynydd ac aelodau'r Pwyllgor fel rhan o'r adolygiad hwn.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod mis Chwefror 2018, a chanfu fod cydymffurfio da â'r rhestr wirio ar y cyfan, gan dderbyn nad oedd rhai meysydd yn berthnasol i amgylchiadau penodol y pwyllgor hwn.

Yr unig feysydd i'w gwella a ganfuwyd oedd:

1) Treulio ychydig mwy o amser ar risgiau allweddol yn hytrach na materion gweithredol;
2) Parhau i adolygu'r cydbwysedd rhwng cyfaill beirniadol a chraffu; a
3) Bod yn ymwybodol o fanylu gormod mewn rhai meysydd, sy'n gysylltiedig â phwynt un ar gadw'r ffocws ar risg strategol.

O'r herwydd, am 2017-18, mae'r Pwyllgor unwaith eto wedi dod i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, gyda thystiolaeth o gydymffurfio da gyda Rhestr Wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o

Effeithlonrwydd Pwyllgorau Archwilio. Caiff adroddiad blynyddol y Pwyllgor ei gyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn fy marn i, mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth ehangach i'r systemau rheolaeth fewnol ac i'm hamcanion ehangach.

Yn ogystal ag adolygu ei berfformiad ei hun, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyhoeddi datganiad ffurfiol bob blwyddyn yn nodi i ba raddau y mae'n fodlon â'm prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg ac arian a rheolaeth fewnol yn gyffredinol. Ar gyfer 2017-18, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu sicrwydd i mi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn rhai priodol a fy mod wedi bod yn gweithredu'n effeithiol.

Dolen i'r wefan: **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

## Archwilio mewnol

Deloitte sy'n darparu fy ngwasanaeth archwilio mewnol. Yn 2017-18, fe wnaeth Deloitte adolygu:

- Systemau ariannol
- Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r Gyflogres
- Llywodraethu corfforaethol a rheoli risg
- Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Gwaith achos

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi lefel y sicrwydd a'r argymhellion yn dilyn pob adolygiad:

| **Ardal** | **Sicrwydd** | **Argymhellion: Blaenoriaeth** | | | **Camau Gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** | |
| Systemau Ariannol: | | | | | |
| • Rheoli cyllideb | Sylweddol | 0 | 0 | 1* | |
| • Prynu a Thalu | Sylweddol | 0 | 0 | 2 | - |
| • Teithio a Chynhaliaeth | Sylweddol | 0 | 0 | 1 | - |
| • Cyflogres | Sylweddol | 0 | 0 | 0* | - |
| • Pensiynau | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | - |
| Llywodraethu corfforaethol/Rheoli risg | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | - |
| Effeithiolrwydd ARAC | Amh | - | - | - | - |
| Gwaith achos | Amh | - | - | - | 1 |
| Cyfanswm | | 0 | 0 | 4* | 1 |

*Mae un argymhelliad blaenoriaeth isel wedi'i nodi yng nghyswllt polisïau a gweithdrefnau ar gyfer y Gyflogres a Rheoli Cyllideb.

Daeth yr Adroddiad Blynyddol i'r casgliad fod "…gan y Comisiynydd system gadarn o reolaeth fewnol, ar y cyfan, a ddylai ddarparu **sicrwydd sylweddol** mewn perthynas â chyflawni amcanion y Comisiynydd".

Yn ogystal ag adolygu'r trefniadau llywodraethu ac ariannol craidd, rwyf wedi gofyn i f'archwilwyr mewnol gynnal adolygiadau cynghori o'r isod yn ystod cylch archwilio 2014-18:

- Gwaith achos
- Gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu
- Dylanwadu ar bolisïau ac arferion
- Cynllunio prosiectau
- Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru
- Datblygu cerdyn sgorio cytbwys
- Y ffordd yr aethpwyd ati i ail-drefnu'r sefydliad
- Effeithlonrwydd fy swydd o ran sut rwy'n cynnig gwerth am arian i bwrs y wlad

Diben yr archwiliadau hyn oedd rhoi sicrwydd i mi fod fy ngwaith ail-drefnu wedi galluogi cyflawni amcanion fy Fframwaith Gweithredu,

canfod arferion da perthnasol o ran yr hyn yr wyf yn ei wneud, yn ogystal ag arferion da gan eraill, a gwerthuso a wyf yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i mi.

## Y Tîm Rheoli Strategol

Fel y datgelwyd yn Adroddiad y Cyfarwyddwr, gweithiais gyda'r Tîm Rheoli Strategol yn ystod 2017-18, a oedd yn cyfarfod yn ffurfiol bob mis. Mae'r Tîm Rheoli Strategol yn adolygu ei gylch gorchwyl bob blwyddyn ac yn adolygu ei arferion gwaith a'i effeithiolrwydd yn barhaus.

Rôl y Tîm Rheoli Strategol, fel grŵp, yw darparu cyngor i mi ac arweiniad corfforaethol i'r sefydliad, gwella ffordd gydweithredol o weithio sydd o fudd i bawb, sicrhau agwedd gyfannol at reoli risg a monitro perfformiad a nodi unrhyw gamau cywiro. Fel grŵp, nid yw'r Tîm Rheoli Strategol yn gorff gwneud penderfyniadau; nid yw'n Fwrdd. Y fi yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd sy'n gwneud penderfyniadau, ond gallaf ddirprwyo hyn i Gyfarwyddwyr unigol yn ôl yr hyn a gytunir gyda mi. Felly, mae'r Tîm Rheoli Strategol yn cyfrannu at yr isod:

- datblygu fy nodau strategol a'm cynllun busnes blynyddol
- dyrannu adnoddau ariannol, dynol ac adnoddau eraill yn effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny
- asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd
- asesu perfformiad y sefydliad yn gyffredinol yn ôl yr amcanion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredol Blynyddol a chyflawni'r Cynllun Strategol

Dolen i'r wefan: **Y Tîm Rheoli Strategol**

## Risg

Rwyf wedi pennu agenda heriol i'r sefydliad drwy gyfrwng fy Fframwaith Gweithredu.

Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu y byddaf yn ystyried y risg o bethau'n mynd o chwith, ond hefyd yr effaith o beidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio ag elwa ar gryfderau corfforaethol. Mae'r sefydliad yn wynebu risgiau rydym yn gwybod amdanynt a fyddai, pe byddent yn cael eu hanwybyddu, yn effeithio'n ddifrifol ar fy ngallu i fodloni fy mlaenoriaethau strategol.

Mae fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a minnau wedi dynodi'r risg gyffredinol isod:

- Risg i enw da - lle nad wyf yn cael fy ystyried yn cael effaith nac yn geidwad da o ran arian cyhoeddus.

Bydd rheoli risg i enw da yn pennu llwyddiant neu fethiant y Comisiynydd, yn bersonol i'r sawl sy'n dal y swydd, ac o ran argraff y prif randdeiliaid o'r sawl sydd yn y swydd a'r sefydliad ei hun.

Mae risg yn rhan annatod o'r risg gyffredinol hon, ac mae dwy risg allweddol sefydlog wedi'u nodi, sef:

- Methiant sylweddol i gydymffurfio â gofynion llywodraethu, rheoleidd-dra a chyfreithiol.
    - Peidio â chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu eraill.
    - Adnoddau ddim yn cael eu cynllunio, eu trefnu na'u rheoli'n effeithiol.
    - Colli parhad busnes.
    - Nid oes gan staff y sgiliau, yr wybodaeth na'r cymwyseddau sy'n ofynnol i gyflawni eu rolau'n effeithiol

- Rhanddeiliaid allweddol yn methu â chefnogi/gweithio gyda'r Comisiynydd ac yn lleisio eu gwrthwynebiad i'w gwaith.
    - Nid yw'r Comisiynydd yn cyflawni newid dylanwadol fel y nodir yn y rhaglen waith.
    - Ystyrir nad yw'r Comisiynydd a/neu ei gwaith, yn berthnasol.
    - Nid oes gan y Comisiynydd gysylltiadau a dylanwad gwleidyddol effeithiol.
    - Nid yw disgwyliadau rhanddeiliaid yn gyraeddadwy.
    - Nid oes gan staff y sgiliau, yr wybodaeth na'r cymwyseddau sy'n ofynnol i gyflawni eu rolau'n effeithiol
    - Nid yw'r Comisiynydd yn ymddangos yn annibynnol.

Mae risg ychwanegol sy'n ymwneud ag amser wedi'i nodi hefyd, wrth i dymor y Comisiynydd yn ei swydd ddod i ben ar 5 Mehefin 2018:

- Diffyg sefydlogrwydd ac amharu ar barhad busnes yn ystod y cyfnod pontio ar gyfer y Comisiynydd newydd.
    - Nid yw Llywodraeth Cymru yn penodi'r Comisiynydd newydd cyn diwedd mis Mawrth 2018.

- Aelodau staff yn gadael y sefydliad oherwydd yr ymdeimlad o ansicrwydd.
- Pobl hŷn yn cwestiynu'r broses o benodi'r Comisiynydd newydd yn gyhoeddus.

Mae'r risgiau hyn wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac maent yn cael eu trafod yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg chwarterol.

Yn ogystal â'r trafodaethau chwarterol ffurfiol gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, mae'r canlynol yn cael ei wneud:

- Mae pob darn o waith o bwys sydd i'w gyflawni wedi'i ategu gan gynllun prosiect a phroffil risg unigol. Mae Cyfarwyddwyr yn pennu statws Coch, Melyn, Gwyrdd ar gyfer y rhain bob mis ac yn adrodd yn ôl ar eithriadau bob mis i'r Comisiynydd.
- Trafodaethau bob mis rhwng y Cyfarwyddwyr a'u timau.
- Trafodaeth bob mis rhwng y Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr am y risgiau posib, a'u heffaith a pha mor agos ydynt. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn a'r prif ysgogwyr sydd wedi'u nodi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Mae cyfnodau o drawsnewid ar gyfer materion penodol yn cael eu hategu gan broffiliau risg penodol.
- Briffio a thrafodaeth staff flynyddol ar y prif risgiau a sut mae eu rheoli.

Mae pob risg, ni waeth o ble y mae'n deillio, yn cael ei hystyried yn ffurfiol gan y Comisiynydd bob mis, ar gyfer ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael gwybod mewn amser real os bydd unrhyw risg yn cael ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## Mynegi Pryderon

Os digwydd i'm staff neu eraill fynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i ymdrin â hyn sy'n cynnwys Polisi Cwynion a Pholisi Codi Pryderon. Cyfeirir unrhyw faterion sy'n ymwneud â rôl y Comisiynydd at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Ym mis Tachwedd 2016, daeth rôl y Comisiynydd yn ‘berson rhagnodedig’ o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) ar gyfer materion sy’n ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae’r Ddeddf yn gwarchod gweithwyr sy’n chwythu'r chwiban ynghylch drwgweithredu rhag cael eu herlid gan eu cyflogwyr, ar yr amod eu bod yn gwneud hynny yn un o’r ffyrdd a nodir yn y Ddeddf (a elwir yn ddatgeliad gwarchodedig). Nid yw’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i’m swyddfa ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law, oherwydd mai dim ond datgeliadau sy’n dod o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol y mae modd i mi ymchwilio iddynt.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu cyfeirio ataf o dan fy mholisi Codi Pryderon nac o ganlyniad i fy rôl fel person rhagnodedig yn ystod 2017-18 (2016-17: 0, 0).

Yn ystod 2017-18, daeth un gŵyn ffurfiol i law o dan y Polisi Cwynion (2016-17: 0). Yn ystod y flwyddyn, rhoddais wybod i’m Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nad oedd unrhyw gwynion anffurfiol (2016-17: 3).

## Gwybodaeth

Yn ystod 2017-18, daeth tri chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i law (2016-17: 2). Cydymffurfiwyd â phob cais o fewn yr amserlenni penodol. Ni ddaeth unrhyw gais i law o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (2016-17: 0).

Mae trefniadau ar waith i warchod diogelwch yr wybodaeth sydd gennyf fi. Mae hyn yn cynnwys data personol a ddelir sy’n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2017-18, ni chafwyd unrhyw achosion o dorri diogelwch data (2016-17: 0) lle roedd gofyn rhoi gwybod amdanynt i’r Comisiynydd Gwybodaeth.

O ganlyniad i’r Rheoliadau Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data sy’n dod i rym ar 25 Mai 2018, mae Blake Morgan wedi adolygu fy nghontractau a’r polisïau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Rheoliadau. Mae’r holl bolisïau a’r gweithdrefnau perthnasol wedi’u diweddaru i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Rheoliadau, ac mae staff wedi cael sesiwn hyfforddi er mwyn codi ymwybyddiaeth.

## Technoleg Gwybodaeth

Mae fy systemau TG wedi cael eu dilysu'n annibynnol yn 2017-18, ac rwyf wedi cael fy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun Cyber Essentials Plus Scheme, sy'n gynllun ardystio seiberddiogelwch sy'n nodi gwaelodlin dda ar gyfer seiberddiogelwch. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i bum rheolaeth sy'n gallu atal tua 80% o ymosodiadau seiber, os ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn gywir.

## Cofrestri

Rwyf yn cyhoeddi manylion am fy nhreuliau fy hun, yn rhai uniongyrchol a'r rhai a geir ar fy rhan, ar fy ngwefan bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r treuliau hyn ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: **Treuliau'r Comisiynydd**

Rwyf yn cadw cofrestr o'r holl roddion a'r lletygarwch sydd wedi'u derbyn a'u gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru bob chwarter a'i chyhoeddi ar fy ngwefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r treuliau hyn ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**

## Adolygu effeithiolrwydd

Yn rhinwedd fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu. Mae gwaith archwilio mewnol, fy Nhîm Rheoli Strategol a sylwadau archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) yn sail i'r gwaith hwn, fel sy'n cael eu cynnwys yn y llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn fy nghynghori hefyd ar oblygiadau canlyniadau fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, nododd yr archwilwyr mewnol bedwar mân argymhelliad ynghylch fy systemau llywodraethu ac ariannol. Nid oedd yr un o'r rhain yn tanseilio fy sgôr sylweddol. Mae'r argymhellion hyn wedi'u nodi yn yr adran ar archwilio mewnol. Felly, rhoddais ragor o reolaethau mewnol ar waith, i warchod

yn erbyn y risgiau y tynnodd yr argymhellion hyn sylw atynt, ac rwyf yn sicrhau fy mod yn monitro systemau mewnol yn barhaus ac rwyf bob amser yn ceisio eu gwella.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn y datganiad llywodraethu hwn, ac yn fy marn i, mae'r gweithdrefnau a'r strwythurau rheolaeth fewnol a llywodraethau cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a f'amcanion ac wedi gweithio'n effeithiol drwy 2017-18.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 a hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**6 Mehefin 2012 - 5 Mehefin 2018**

**Kelly Davies**
**Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**24 Gorffennaf 2018**

[1]Gan fod cyfnod Sarah Rochira yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 5 Mehefin 2018, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn rhinwedd ei swydd fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

## 2.2 ADRODDIAD AR STAFF A THALIADAU

### Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy’n pennu fy nghyflog i, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dan delerau’r penodiad hwn, byddai codiadau blynyddol yn dilyn y dyfarniad canran a wneir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Rwyf hefyd yn gymwys ar gyfer Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac rwyf wedi ymuno â'r cynllun hwnnw. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog cyfun o 2.25% ar gyfer 2017-18 a 2018-19, a chafodd ei dalu ym mis Rhagfyr 2017.

Fi sy’n pennu cyflogau staff sy’n cael eu cyflogi’n uniongyrchol. Cynhaliwyd archwiliad cyflog yn 2017-18 a oedd yn asesu cyfraniad gweithwyr at fy amcanion strategol, ac yn cymharu swyddi yn yr un band â’i gilydd er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb yn strwythur y sefydliad. Yn sgil y gwerthusiad hwn, cafodd band un swydd ei newid.

Dyfarnwyd codiadau cynyddrannol i gyflogau staff eraill yn unol â thelerau ac amodau contractau. Cafodd cynnydd o 1%, sef costau byw chwyddiant, ei ddyfarnu yn 2017-18 (rhoddwyd 1% yn 2016-17).

### Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff, ar delerau ac amodau a bennir gennyf fi, ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond cynhwysir hefyd ddarpariaethau ar gyfer amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall. Mae’r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau’r gwasanaeth sifil. Nid yw’r staff yn aelodau o’r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS).
Oni nodir yn wahanol isod, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau’r PGPGS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu mecanweithiau i werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fesur ar lefel briodol ar bob cam o’u cyflogaeth gyda’r sefydliad. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliad ar waith i wella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol drwy sicrhau mwy o gynhyrchiant.

Byddai terfynu swydd yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn neu ymddiswyddiad, yn golygu y byddai’r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn

Mae’r adran hon yn amodol ar archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.
Mae’r adrannau canlynol yn darparu manylion taliadau a buddion pensiwn y Comisiynydd a staff uwch.

## Cyfanswm unigol y taliad
## (Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad)

Mae’r ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y DU yn berthnasol iddynt. Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd wedi’u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

| **Enw a theitl** | **Cyflog** | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn (1)** | **Buddion Pensiwn (1)** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2017-18 £000** | **2016-17 £000** | **2017-18 £000** | **2016-17 £000** | **2017-18 £000** | **2016-17 £000** |
| Sarah Rochira<br>Y Comisiynydd | 95-100 | 95-100 | 38 | 38 | 130-135 | 130-135 |
| Kelly Davies<br>Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, Dirprwy Gomisiynydd | 60-65 | 55-60 | 25 | 23 | 85-90 | 80-85 |
| Daisy Cole<br>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso | 60-65 | 60-65 | 25 | 24 | 85-90 | 85-90 |

(1) Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) yn ogystal â'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai'r (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

## Hawliau pensiwn
## (Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad)

| | Pensiwn cronedig ar oed pensiwn ar 31/3/18 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oed pensiwn | GTGAP ar 31/3/18 | GTGAP ar 31/3/17 | Y cynnydd gwirioneddol yn y GTGAP |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Sarah Rochira<br>Y Comisiynydd<br>Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 6/6/12 | 10-15 | 0-2.5 | 166 | 133 | 20 |
| Kelly Davies<br>Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, Dirprwy Gomisiynydd | 5-10 | 0-2.5 | 67 | 53 | 8 |
| Daisy Cole<br>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso | 5-10 | 0-2.5 | 76 | 58 | 11 |

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil o 1 Ebrill 2015 ymlaen – sef Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu'r alpha, sy'n rhoi buddion yn ôl cyfartaledd gyrfa gyda phensiwn oed arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw hwnnw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, roedd pob gwas sifil newydd a benodwyd a'r mwyafrif o'r rheini sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfrannu at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae pedair rhan i'r PGPGS: mae tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol a mwy) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn.  Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Roedd pobl oedd eisoes yn aelodau o'r PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd i gyrraedd oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn y PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015.  Bydd y rheini oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o gyrraedd oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022.  Mae'r buddion sydd gan yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn PGPGS yn cael eu 'bancio', gyda buddion y rheini sydd â buddion blaenorol yn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.  (Mae'r ffigurau pensiwn sydd wedi'u nodi ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn maent wedi'i ennill yn PGPGS neu alpha - fel sy'n briodol.  Os oes gan y swyddog fuddion yn PGPGS ac alpha, y ffigur sydd wedi'i nodi yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sydd wedi ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithiwr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio o rhwng 4.6% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alffa.  Mae'r buddion o dan y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Gyda'r cynllun premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes dim cyfandaliad awtomatig. Mae Clasurol a Mwy yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun clasurol, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premiwm. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.  Yn alpha, mae buddion yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ond bod y pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32%.  Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae’r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae’r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes raid i’r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw tra’n dal i weithio ac ymddeol oherwydd salwch).
Y pensiwn cronedig a nodir yw’r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i’w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu’n syth pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o’r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oed hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm a clasurol a mwy, 65 ar gyfer aelodau’r cynllun nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p’un bynnag sydd uchaf, ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn sydd wedi'u nodi ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn maent wedi’i ennill yn PGPGS neu alpha - fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PGPGS ac alpha, y ffigur sydd wedi'i nodi yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer ei bod yn bosib y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw’n daladwy o oedran gwahanol).

Mae manylion pellach ar drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

### Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i’w dalu o’r cynllun i gymar. Taliad yw’r GTGAP a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â’r buddion y mae’r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i’w aelodaeth gyflawn o’r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae’r ffigurau’n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn

ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTGAPau yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

### Y cynnydd gwirioneddol yn y GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y GTGAP sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Datgeliad cyflog teg
### (Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.  Mae'r taliad cyfan yn cynnwys cyflog yn unig ac nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

| | 2017-18 Cyflog £ | 2016-17 Cyflog £ |
|---|---|---|
| Band cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) | 95,000 – 100,000 | 90,000 - 95,000 |
| Taliad Cyfan Canolrifol | 32,900 | 32,550 |
| Cymhareb | 2.96 | 2.91 |

Roedd tâl band y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £95-100k yn 2017-18 (2016-17: £90-95k). Roedd hwn 2.96 gwaith yn fwy (2016-17: 2.91) na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £32,900 (2016-17: £32,550). Mae'r newid gyfwerth ag 1% o'r dyfarniad costau byw a dalwyd i staff yn ystod 2017-18.

Yn 2017-18, ni chafodd yr un gweithiwr (2016-17: dim) daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Roedd taliadau yn amrywio o £21,300 i £96,857 (2016-17: £18,150 i £94,726).

## Adroddiad Staff
## (Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad)

Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2017/18 | | | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| | **£ 000** | **£ 000** | **£ 000** | **£ 000** |
| | **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Llafur achlysurol** | **Cyfanswm costau staff** | **Cyfanswm costau staff** |
| Cyflogau | 702 | 122 | 824 | 748 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 56 | 13 | 69 | 68 |
| Costau Pensiwn Eraill | 151 | 25 | 176 | 154 |
| **Is-gyfanswm** | **909** | **160** | **1,069** | **970** |
| Costau asiantaeth | 0 | 7 | 7 | 11 |
| **Cyfanswm costau net** | **909** | **167** | **1,076** | **981** |

O fewn costau staff, mae £8,763 (2016-17: £9,622) sy'n berthnasol i dalu pedwar aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn “Alpha” yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu cyllido ar gyfer sawl cyflogwr ond nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu canfod beth yw ei chyfran hi o'r asedau a'r dyledion. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa’r Cabinet: Pensiwn Sifil.

Ar gyfer 2017-18, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £176k yn daladwy i'r PGPGS (2016-17: £155k) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2017-18 sydd i'w talu i'r aelod pan mae'n ymddeol, ac nid y buddion a gaiff eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn codi pensiwn.

Gall gweithiwr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniad cyflogwr gwerth £dim i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £dim, 0.5% o gyflog pensiynadwy yn daladwy i'r PGPGS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd salwch yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Roedd cyfraniadau a oedd yn daladwy i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £dim. Roedd y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw yn £dim.

Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys o dan y pennawd Costau Pensiwn Eraill yn y tabl uchod.

## Nifer y staff
## (Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad)

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gennyf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch aelodau staff) fel a ganlyn:

| | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 16.54 | 14.90 |
| Staff Achlysurol/Dros Dro | 0.37 | 0.11 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 4.59 | 4.40 |
| **Cyfanswm** | **21.50** | **19.40** |

Ar ddiwedd y cyfnod ariannol, roedd nifer yr unigolion gyfwerth ag amser llawn oedd wedi cael eu cyflogi gennyf (gan gynnwys uwch aelodau staff) fel a ganlyn:

| | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 16.54 | 15.53 |
| Staff Achlysurol/Dros Dro | 0.21 | 0 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 4.54 | 2.79 |
| **Cyfanswm** | **21.29** | **18.32** |

Yn y tablau uchod, mae'r staff cyflogedig yn cael eu nodi mewn niferoedd sydd gyfwerth ag amser llawn.

Roedd cyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl rhyw ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn:
**(Nad yw'r adran hon yn amodol ar archwiliad)**

## Staff yn ôl rhyw 2017-18



| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 17 | 70.8% | Menywod |
| 7 | 29.2% | Dynion |
| 24 | 100% | Cyfanswm |

## Staff yn ôl rhyw 2016-17



| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 16 | 72.7% | Menywod |
| 6 | 27.3% | Dynion |
| 22 | 100% | Cyfanswm |

## Uwch Reolwyr yn ôl rhyw 2017-18



| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 3 | 100% | Menywod |
| 0 | 0% | Dynion |
| 3 | 100% | Cyfanswm |


## Uwch Reolwyr yn ôl rhyw 2016-17




| Nifer | Canran | |
|---|---|---|
| 3 | 100% | Menywod |
| 0 | 0% | Dynion |
| 3 | 100% | Cyfanswm |

Yn y delweddau uchod, fe nodir y dadansoddiad o'r rhywiau mewn gwir niferoedd, ac maent yn dangos mai ychydig o newid sydd wedi bod yng nghyfansoddiad y staff rhwng 2016-17 a 2017-18.

Roedd cyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl band cyflog ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn:




Yr amrywiad mwyaf amlwg o ran rhyw yn ôl band cyflog yw'r cynnydd yn nifer y dynion ym mand cyflog D yn 2017-18. Mae fy swyddfa yn anarferol oherwydd mae holl aelodau fy Nhîm Rheoli Strategol yn fenywod. O ganlyniad i niferoedd staff isel y sefydliad, pe bai fy Nhîm Rheoli Strategol yn ddynion yn hytrach na menywod, byddai proffil y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y sefydliad yn dangos patrwm mwy arferol, gyda mwy o ddynion ar gyflog Band D neu uwch[2].

## Absenoldeb oherwydd salwch

12.67 diwrnod (9.95 diwrnod yn 2016-17) oedd cyfartaledd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch fesul aelod o staff; mae'r gyfradd absenoldeb hon oherwydd salwch yn uwch nag y byddai rhywun yn ei dymuno a gellir ei phriodoli i nifer fach o staff oedd ar absenoldeb salwch tymor hir. Os caiff yr absenoldebau tymor hir, sy'n cael eu categoreiddio fel absenoldebau am fwy na phedair wythnos, eu tynnu o'r cyfraddau cyfartalog ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch, yna 5.62 diwrnod (4.35 diwrnod yn ystod 2016-17) fydd y gyfradd, sydd fymryn yn uwch na'r gyfradd absenoldeb o 4.3 diwrnod ar gyfer marchnad lafur y DU yn ystod 2016[1]. Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr. Rwyf hefyd yn cefnogi gweithwyr i gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd drwy weithredu system amser hyblyg ac yn rhoi cyfleoedd i weithwyr gael patrymau gwaith hyblyg.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Mae fy staff a minnau wedi ymrwymo i gefnogi'r Ddeddf Cydraddoldeb yn llawn ac i wneud ymdrech i ymgorffori'r Ddeddf ym mhopeth y mae'r sefydliad yn ei wneud. Rwyf wedi ymroi i gyfle cyfartal ac yn ceisio cyflogi gweithlu amrywiol. Caiff pob cais ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail ei allu, ei gymwysterau a'i addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Rwyf yn sylweddoli bod gwahaniaethu o unrhyw fath yn annerbyniol ac rwyf wedi ymroi i hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb. Rwyf wedi ymroi i sicrhau amgylchedd gweithio sy'n rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu a gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn cael ei drin yn deg, gyda pharch ac urddas.

Rwyf wedi ymroi i roi cyfleoedd cyfartal i'r holl staff sy'n cael eu cyflogi gennyf ar hyn o bryd ac unrhyw ddarpar ymgeiswyr. Ni fydd unrhyw aelod o staff nac unrhyw ymgeisydd am swydd yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred, anabledd, oed, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, nac unrhyw ystyriaeth berthnasol arall, ac ni fydd unrhyw unigolyn yn cael ei roi dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn.

O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i mi lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ond mae fy ymroddiad i ymladd gwahaniaethu yn ddyfnach ac yn mynd yn bellach na'r cynllun hwn – mae wrth galon fy nyletswyddau statudol a'r blaenoriaethau rwyf wedi'u cyhoeddi yn fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-17.

Ar ôl dal ati i gydweithio ac ymgynghori â phobl er mwyn llywio'r gwaith o adolygu fy amcanion, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn nodi sut byddaf yn parhau i sicrhau fy mod, fel cyflogwr, yn rhoi'r egwyddorion hynny sydd wrth wraidd cydraddoldeb a thegwch ar waith.

Dolen i'r wefan: **Cynllun Cydraddoldeb**

### Polisïau staff yng nghyswllt gweithwyr anabl

Ar gais, byddwn yn darparu gwybodaeth recriwtio mewn fformat gwahanol, er enghraifft print bras, Braille neu'n electronig, a byddwn hefyd yn derbyn ceisiadau am swyddi mewn fformat gwahanol. Byddwn yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer y cyfweliad, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn yr iaith o'u dewis.

Byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle byddai modd, i atal pobl anabl rhag bod dan anfantais. Mae hyn yn berthnasol i gyfweliadau a threfniadau ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r sefydliad, ac ar gyfer aelodau presennol o staff sy'n dychwelyd i weithio ar ôl anaf neu salwch hefyd.

### Buddion i weithwyr

Ar ôl ailasesiad ym mis Chwefror 2015, fe lwyddodd y sefydliad i ddal gafael ar Wobr Aur Iechyd y Gweithle Bach. Mae'r wobr yn ddilys am dair blynedd, a bydd yn cael ei hailasesu ym mis Mai 2018. Mae Gwobr Aur Iechyd y Gweithle Bach yn cyfrannu at fy nghydnabod fel cyflogwr rhagorol ac yn galluogi staff i berfformio i'r lefel uchaf bosibl. Yn eu hadolygiad yn 2015, fe nododd yr aseswyr:

> *Mae'n glir…fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyflogwr delfrydol. Mae pob elfen o les gweithwyr yn cael sylw llawn. Yn yr arolwg staff a gynhaliwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl, roedd staff yn teimlo eu bod yn cael*

> *eu gwerthfawrogi, eu bod yn deall sut y maent yn cyfrannu at lwyddiant y busnes, a'u bod yn mwynhau'r hyn a wnânt. Mae'r diwylliant yn y sefydliad yn arwain at amgylchedd lle mae'r staff yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Mae staff yn gallu cyfrannu at ddatblygiad materion yn y busnes, rhai ffurfiol ac anffurfiol, mewn sawl ffordd. Mae amrywiaeth o bolisïau'n bodoli yn y sefydliad i gefnogi lles y staff. Mae'r polisïau hyn yn glir iawn ac yn hawdd eu darllen.*

Rwyf wedi parhau i sicrhau bod rhaglen iechyd a lles gynhwysfawr yn cael ei darparu i staff drwy'r flwyddyn, drwy ddarparu gwybodaeth bob mis ar wahanol bynciau iechyd a lles, yn ogystal â neilltuo cyfarfodydd tîm i drafod y pwnc hwn.

Yn ystod y flwyddyn, roedd pob gweithiwr wedi cael sesiwn hyfforddiant ar ffurf cyfarfod tîm am y pynciau canlynol:

- Camddefnyddio Sylweddau
- Dementia
- Diogelu oedolion yn effeithiol
- Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Hanes a phwysigrwydd y Gymraeg
- Iechyd a lles meddyliol
- Lleferydd ac iaith i bobl sy'n byw â dementia
- Gofal ceiropractig
- Teithio'n gynaliadwy
- Ymwybyddiaeth Ofalgar

Mae pob aelod o staff yn gallu mynd i wersi Cymraeg yn ystod amser gwaith hefyd ar lefel dechreuwr, lefel ganolradd neu lefel uwch.

Rwyf wedi cyflwyno Rhaglen Cymorth i Weithwyr sy'n gyfrinachol ac am ddim i bob aelod o staff.
Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion megis Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith ar gael iddynt hefyd.
Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r achrediad hwn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn ennill y Cyflog Byw o leiaf. Mae'r Cyflog Byw yn seiliedig ar gost byw yn y DU.

Does dim achos wedi bod lle bu'n rhaid i mi negodi ag undeb llafur ar ran staff ac nid wyf wedi cael fy hysbysu bod unrhyw weithwyr yn aelodau o undeb llafur ar hyn o bryd.

## Ymgysylltu â Gweithwyr

Drwy gyfrwng y Fforwm Staff, rwyf yn ymgysylltu â'r holl staff, sy'n cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd a'u hamgylchedd yn y gwaith ac i gyfrannu at benderfyniadau o'r fath. Nod y Fforwm Staff yn gyffredinol yw ystyried iechyd a lles staff a datblygu, sefydlu a chynnal ffyrdd effeithiol o gyfathrebu ac ymgynghori. Rhoddir polisïau newydd gerbron y fforwm er mwyn cael adborth arnynt ar ôl iddynt gael eu llunio – ni chyflwynwyd polisïau staff newydd yn ystod 2017-18.

Mae'r holl bolisïau eraill ar gyfer gweithwyr yn cael eu hadolygu bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, fel y bo hynny'n briodol. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i bolisi, bydd yn cael ei rannu â'r holl staff er gwybodaeth neu er mwyn iddynt roi sylwadau. Mae pob polisi yn cael ei asesu ar gyfer ei effaith ar gydraddoldeb pan gaiff ei gyflwyno neu os gwneir newidiadau sylweddol iddo.

Mae cyfathrebu yn rhan annatod o ddiwylliant fy swyddfa. Rwyf yn cynnal cyfarfodydd tîm yn fisol ac yn ystod y cyfarfodydd hyn, bydd y staff yn cael gwybod y diweddaraf am faterion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol neu ddatblygiad y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn. Er mwyn gwreiddio cyfathrebu yn fwy cadarn byth, dosberthir cylchlythyr anffurfiol bob mis ymysg y staff gydag adran wedi'i neilltuo ar gyfer pob tîm i sôn am unrhyw eitemau mae wedi bod yn gweithio arnynt neu waith sydd yn yr arfaeth a allai fod o ddiddordeb i

gydweithwyr.  Ar ben y cyfarfodydd misol a'r cylchlythyrau, rwyf yn cynnal dau 'ddiwrnod i ffwrdd' y flwyddyn ar gyfer staff sy'n gyfle i ni, fel grŵp, fyfyrio ynghylch llwyddiannau a fu, trafod pwyntiau dysgu a chanolbwyntio ar y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.
Mae dau hysbysfwrdd yn y swyddfa ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff.  Mae un o'r rhain wedi'i neilltuo ar gyfer ein hagenda lles gweithwyr sydd â chyswllt â'r Rhaglen Iechyd Gweithle Bach.

**Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres**
Nid oedd unrhyw gyflogiadau heb fod ar y gyflogres yn ystod 2017-18 na 2016-17.

**Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghori**
Ni chafwyd unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2017-18 na 2016-17

**Iawndal am golli swydd**
**(Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad)**

Nid wnaed dim taliadau iawndal yn 2017-18

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
6 Mehefin 2012 – 5 Mehefin 2018

**Kelly Davies**[1]
**Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**24 Gorffennaf 2018**



[1]Gan fod cyfnod Sarah Rochira yn y swydd Comisiynydd wedi dod i ben ar 5 Mehefin 2018, Kelly Davies fydd yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn rhinwedd ei swydd fel y Dirprwy Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

## 2.3 Tystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan Safonau Cyfrifyddu'r Undeb Ewropeaidd.
Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2018 a'i gwariant net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.
- 

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o’r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r gwariant a'r incwm a nodir yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) Cymru 2006.
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Flynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Flynyddol neu'r Datganiad Llywodraethu].
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Gweinidogion Cymru o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.
Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw hynny'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.
Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan

Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Gorffennaf 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# DATGANIADAU ARIANNOL

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

**Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018**

| | Nodyn | **2017/18**<br>**£ 000** | **2016/17**<br>**£ 000** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 2 | 1,076 | 981 |
| Dibrisiant / Amorteiddiad | 3 | 16 | 12 |
| Gwariant Gweithredol Arall | 3 | 554 | 407 |
| Cyfanswm y Gwariant Gweithredol | | 1,646 | 1,400 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm arall | 4 | 0 | 13 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **1,646** | **1,387** |

Nid oes dim enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2016-17 na 2017-18.

## Datganiad am y Sefyllfa Ariannol

### Ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | £ 000 | 31 Mawrth 2018 £ 000 | £ 000 | 31 Mawrth 2017 £ 000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Gwelliannau prydles | **5** | 6 | | 0 | |
| Offer swyddfa / TGCh | **5** | 13 | | 27 | |
| Asedau anniriaethol | **6** | 14 | | 10 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | 33 | | 37 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **8** | 56 | | 62 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | **9** | 299 | | 354 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | 355 | | 416 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 388 | | 453 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **10** | 98 | | 72 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | 98 | | 72 |
| **Asedau anghyfredol a/llai asedau/rhwymedigaethau cyfredol net** | | | 290 | | 381 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | **12** | 78 | | 78 | |
| Credydwr gohiriedig | **11** | 5 | | 3 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | 83 | | 81 |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **207** | | **300** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | | | 207 | | 300 |
| | | | **207** | | **300** |

**Kelly Davies**[1]
**Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**24 Gorffennaf 2018**

## Datganiad Llif Arian

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018<br>£ 000 | 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net | | (1,646) | (1,387) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | **3** | 16 | 12 |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **8** | 6 | 20 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **10** | 26 | (99) |
| Colled ar Waredu Offer | **3** | 0 | 0 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | **12** | 0 | 0 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn Credydwr gohiriedig | **11** | 2 | 3 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,596)** | **(1,451)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | **5** | (4) | (13) |
| Prynu asedau anniriaethol | **6** | (8) | (10) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(12)** | **(23)** |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 1,553 | 1,583 |
| **Cyllid net** | | **1,553** | **1,583** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod am y cyfnod** | | **(55)** | **109** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | **9** | **354** | **245** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | **9** | **299** | **354** |

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | **Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol** | |
|---|---|---|
| | **1 Ebrill 2017-31 Mawrth 2018 £ 000** | **1 Ebrill 2016-31 Mawrth 2017 £ 000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 300 | 104 |
| Gwariant net | (1,646) | (1,387) |
| Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig | (1,346) | (1,283) |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 1,553 | 1,583 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **207** | **300** |

## Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2017-18. Mae’r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y’u haddaswyd neu y’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Nodir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy’n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i’r cyfrifon.

Safonau cyfrifyddu wedi’u cyhoeddi, ddim ar waith eto:

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd IFRS 16 – Prydlesi, ac mae ar waith ar gyfer cyfnodau blynyddol yn dechrau ar 1 Ionawr 2019 neu ar ôl hynny. Bydd y safon gyfrifyddu hon ar waith o 2019-20 ymlaen ac nid oes modd gwneud amcangyfrif yn rhesymol ar hyn o bryd.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi’i addasu i ystyried ailbrisio asedau anghyfredol. Nid yw’r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw asedau gan nad oedd unrhyw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn berthnasol.

1.2 Asedau anghyfredol

Cynhwysir asedau anghyfredol ar eu cost, oherwydd, ym marn y Comisiynydd, byddai unrhyw addasiad sy'n codi o ailbrisio yn amherthnasol. Mae pob ased anghyfredol yn eiddo i’r Comisiynydd.

1.3 Asedau Anghyfredol Diriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol diriaethol yw £1,000 gan gynnwys TAW anadferadwy. Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae’r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles. Nid yw asedau anghyfredol diriaethol eraill wedi’u hailbrisio oherwydd, ym marn y Comisiynydd, ni fyddai’r symiau dan sylw’n berthnasol.

1.4 Asedau Anghyfredol Anniriaethol
Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol anniriaethol yw £1,000, yn cynnwys TAW nad oes modd ei hadfer. Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth eu cyfalafu fel asedau anghyfredol anniriaethol a’u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (pedair blynedd fel arfer).

1.5 Dibrisiant / Amorteiddiad
Darperir Dibrisiant / Amorteiddiad ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu’r asedau anghyfredol diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif.

Fel arfer, mae oes asedau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri hyd at uchafswm o 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |
| Offer cysylltiedig â TGCh | 4 blynedd |

1.6 Incwm, cyllid a gwariant
Daw prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru drwy ddyraniad cyllid blynyddol.

Dangosir arian a ddaeth i law o gostau secondiad i’r tu allan fel costau cysylltiedig â staff.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd ar waith yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a nodiadau cysylltiedig.

Mae incwm arall yn ymwneud ag arian a dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys y rhaglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru, ond ddim yn gyfyngedig i hynny.

Nid yw’r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adfer TAW.

1.7 Cyfnewid Arian Tramor
Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy’n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy’n gyfredol adeg cyllido.

1.8 Pensiynau
Mae’r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae’n gynllun buddion diffiniedig heb ei gyllido ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i’r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i’w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa’r Cabinet: Pensiwn Sifil.
http://www.civilservicepensionmarcheme.org.uk/

1.9 Tâl Prydlesi Gweithredol
Mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

1.10 Darpariaethau
Mae’r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol lle mae'r amseriad neu'r swm yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o’r gwariant sydd ei angen i setlo’r ymrwymiad.

1.11 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod
Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân hefyd yn swyddfa'r Comisiynydd.

1.12 Buddion i weithwyr
Mae tâl, cyflog a chyfraniadau yswiriant gwladol ar gyfer gweithwyr presennol yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i gydnabod gwasanaeth y gweithwyr. Mae’r Comisiynydd yn rhoi cyfrif am wyliau blynyddol â thâl fel rhwymedigaeth pan ddylid digolledu am absenoldeb o fewn 12 mis i ddiwedd y cyfnod o ddarparu’r gwasanaeth.

## 2. Nifer y staff a chostau cysylltiedig

| | 2017/18 | | | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| | £ 000 | £ 000 | £ 000 | £ 000 |
| | **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Llafur achlysurol** | **Cyfanswm costau staff** | **Cyfanswm costau staff** |
| Cyflogau | 702 | 122 | 824 | 748 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 56 | 13 | 69 | 68 |
| Costau Pensiwn Eraill | 151 | 25 | 176 | 154 |
| **Is-gyfanswm** | **909** | **160** | **1,069** | **970** |
| Costau asiantaeth | 0 | 7 | 7 | 11 |
| **Cyfanswm costau net** | **909** | **167** | **1,076** | **981** |

Roedd y Comisiynydd wedi cyflogi 21.50 o staff cyfwerth ag amser cyflawn yn ystod 2017-18 (19.40 yn 2016-17).

Mae nifer y staff a chostau cysylltiedig wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau ar dudalen 64.

## 3. Gwariant Arall

Mae gwariant arall yn cynnwys:

| | 2017/18 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | 71 | 66 |
| Costau eraill o ran adeiladau | 71 | 75 |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 16 | 7 |
| Ffioedd proffesiynol | 72 | 41 |
| Hyfforddiant a datblygu | 13 | 9 |
| Teithio a chynhaliaeth | 14 | 20 |
| Ffioedd Archwilio – Archwiliad Mewnol | 11 | 10 |
| Ffioedd Archwilio – Archwiliad Allanol | 14 | 14 |
| Rhaglenni Penodol | 179 | 78 |
| Costau gweinyddol eraill | 93 | 87 |
| | **554** | **407** |
| Eitemau anariannol: | | |
| Dibrisiant | 12 | 10 |
| Amorteiddiad | 4 | 2 |
| **Cyfanswm** | **570** | **419** |

**Rhaglenni Penodol**

Yn ystod 2017/18, cododd y costau uniongyrchol ychwanegol canlynol gan y Comisiynydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn y Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-2017. Nid yw'r gwariant a ddatgelwyd yn cynnwys dosrannu unrhyw gostau cyflog staff y Comisiynydd, gan gynnwys staff ar secondiad, ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

| **Rhaglenni - Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-2017** | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus. | 46 | 29 |
| Gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael. | 41 | 15 |
| Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a’r seilwaith cymunedol | 20 | 15 |
| Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed, a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a’u hamddiffyn. | 62 | 5 |
| Mynd i’r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu. | 10 | 14 |
| **Cyfanswm** | **179** | **78** |

## 4. Incwm Arall

| | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Incwm arall o weithgareddau gweithredu | 0 | 13 |
| **Cyfanswm** | **0** | **13** |

Mae incwm arall yn ymwneud ag arian a dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru.

## 5. Asedau Anghyfredol Diriaethol

| | **Technoleg Gwybodaeth £000** | **Gwelliannau Prydles £000** | **Offer Swyddfa £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 57 | 272 | 37 | 366 |
| Ychwanegiadau | 0 | 4 | 0 | 4 |
| Gwarediadau | (6) | 0 | 0 | (6) |
| Ail-gategoreiddio | (3) | 3 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 48 | 279 | 37 | 364 |
| | | | | |
| Dibrisiant | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 35 | 272 | 32 | 339 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 9 | 1 | 2 | 12 |
| Gwarediadau | (6) | 0 | 0 | (6) |
| Ail-gategoreiddio | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 38 | 273 | 34 | 345 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018** | **10** | **6** | **3** | **19** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017 | 22 | 0 | 5 | 27 |

Ni amharwyd ar asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

## 6. Asedau anghyfredol anniriaethol

| | Trwyddedau Meddalwedd £000 | Technoleg Gwybodaeth £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 46 | 68 | 114 |
| Ychwanegiadau | 0 | 8 | 8 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | 46 | 76 | 122 |
| | | | |
| Amorteiddiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 46 | 58 | 104 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 4 | 4 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **46** | **62** | **108** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 0 | 14 | 14 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017** | **0** | **10** | **10** |

## 7. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion arian y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol (buddsoddiadau, deilliadau ac offerynnau ariannol eraill) yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu risg a fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio, ac felly nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

## 8. Symiau masnach derbyniadwy

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 0 | 0 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 56 | 62 |
| | **56** | **62** |

Nid oedd symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn.

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 354 | 245 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | (55) | 109 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **299** | **354** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 246 | 205 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 53 | 149 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **299** | **354** |

## 10. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2017/18<br>£000 | 2016/17<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau masnach taladwy | 17 | 4 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 81 | 68 |
| | **98** | **72** |

## 11. Credydwr gohiriedig

| | 2017/18<br>£000 | 2016/17<br>£000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 3 | 0 |
| Gwariant cronedig yn ystod y flwyddyn | 2 | 3 |
| Rhyddhawyd i Gyfrif Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 5 | 3 |

Mae gan y Comisiynydd brydles weithredu o bum mlynedd yng nghyswllt swyddfeydd, sy'n cynnwys rhent amrywiol dros oes y brydles, a thoriad heb effaith ym mlwyddyn tri.  Cofnodir costau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles yn unol ag IAS 17.  Bydd y credydwr gohiriedig yn rhyddhau'n llwyr ym mlwyddyn tri y brydles.

## 12. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 2017/18 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 78 | 78 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| Balans ar 31 Mawrth | **78** | **78** |

Gwneir darpariaeth ar gyfer ailaddurno/dadfeiliadau yn y swyddfa yn ystod cyfnod y brydles ac ar derfyn y brydles. Yn unol ag IAS 37, caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu bob blwyddyn.

## 13. Ymrwymiadau dan brydlesi

(a) Prydlesi gweithredol

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

| | 2017/18 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 67 | 63 |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd* | 163 | 230 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 0 | 0 |
| | **230** | **293** |

*Mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar gyfnod prydlesu o bum mlynedd o 5 Awst 2018 ymlaen. Pennwyd y rhent taladwy ar gyfer tair blynedd cyntaf y cyfnod, gyda rhent taladwy blynyddoedd pedwar a phump i'w gytuno yn ystod 2021-22. Bydd gwerth y brydles hon yn gyson â'i gwerth yn y farchnad agored yn dilyn archwiliad gan syrfëwr annibynnol.

(b) Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2016-17: dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo sy'n brydlesi neu'n gontractau PFI (2016-17: dim).

## 14. Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2017/18 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau cyfalaf ar gontract ar 31 Mawrth nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn. | 0 | 10 |

Roedd gan y Comisiynydd Ymrwymiad Cyfalaf ar 31 Mawrth 2017 yn ymwneud ag uwchraddio gweinydd a rhwydwaith TG; cafodd y gwaith ei gwblhau yn ystod 2017-18.

## 15. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn (2016-17: dim).

## 16. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2017-18 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1.553M gan Lywodraeth Cymru (2016-17: £1.583M) a oedd yn cynnwys dyraniad anghylchol o £10k ar gyfer y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2017-18 ni fu'r Comisiynydd nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Strategol, nac unrhyw aelod o'u teulu, yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol.

## 17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan Kelly Davies ar 24 Gorffennaf 2018